




ADRODDIAD BLYNYDDOL

2024
/25



TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES




CYNNWYS

Adroddiad Strategol	Llywodraethu
Cipolwg ar y flwyddyn3	Datganiad llywodraethu corfforaethol51
Datganiad y Prif Swyddog Gweithredol4	Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg57
Datganiad y Cadeirydd5	Adroddiad taliadau58
Ein strwythur a mesur ein perfformiad6	Adroddiad y Cyfarwyddwyr61
Yn Cyflwyno: y Rhwydwaith T7	Datganiad o gyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr mewn perthynas â'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol63
Amcanion Llesiant8	
Rhagair Ysgrifennydd y Cabinet9	
Adroddiad y Prif Swyddog Cyllid, Llywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol10	Datganiadau Ariannol
Beth rydym wedi'i gyflawni eleni15	Adroddiad yr archwilydd annibynnol i aelodau Trafnidiaeth Cymru65
Risg38	Datganiad Incwm Cyfunol69
Datganiad Adran 17242	Datganiad sefyllfa ariannol cyfunol70
Hinsawdd45	Datganiad Cyfunol am Newidiadau mewn Ecwiti71
	Datganiad cyfun o lifoedd arian72
	Datganiad y cwmni o sefyllfa ariannol73
	Datganiad y cwmni o newidiadau mewn ecwiti74
	Nodiadau75

TRYDANEIDDIO

rheilffyrdd
Treherbert, Aberdâr
a Merthyr.


Ers 2020, rydym wedi
gosod 120km o geblau
uwchben a 70km o gebl
foltedd uchel. Mae 25 o'n
gorsafoedd bellach yn
cynnig mynediad gwell i
bobl sy'n defnyddio cadair
olwyn a phobl fregus.



1.2 MILIWN

o deithiau TrawsCymru
ar gontractau rydym yn
eu rhedeg


i fyny 11.4% ers y llynedd.



150,000

o deithiau trên gan
ddefnyddio talu wrth fynd

Yn ystod y tri mis cyntaf, gwnaed
150,000 o deithiau trên gan
ddefnyddio talu wrth fynd.



17.8%


o gynnydd
mewn refeniw
rheilffyrdd i
£174.8 miliwn.

31.7

miliwn o
deithiau trên

cynnydd o
bron i un rhan
o bump ers y
llynedd.

31.7M



Wedi dosbarthu


£47 miliwn

mewn cyllid
teithio llesol.



77.1%

o deithiau ar drenau
newydd o 24 Mai
2025 ymlaen.





DATGANIAD Y PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL, JAMES PRICE

Mae'r holl lwyddiannau a nodir yn yr adroddiad hwn yn deillio o waith caled ein cydweithwyr. Rwy'n gobeithio, wrth ddarllen yr adroddiad hwn, y byddan nhw'n cymryd munud neu ddau i fyfyrto ar bopeth maen nhw wedi'i gyflawni dros y flwyddyn ddiwethaf. Ni fyddai hyn yn bosibl hebddyn nhw.



Mae pobl Cymru wedi elwa o'n gwaith caled. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cyflwyno llawer o drenau a bysiau newydd ac rydym wedi ariannu prosiectau i'w gwneud hi'n haws cerdded, olwyno a beicio. Rydym wedi cynyddu nifer ein teithwyr gyda refeniw rheilffyrdd yn tyfu 17.8%. Rydym bellach wedi trydaneiddio dros 100km o Linellau Craidd y Cymoedd. Mae nifer y teithwyr ar wasanaethau TrawsCymru rydym yn dal contract ar eu cyfer wedi cynyddu ac rydym wedi agor cyfnewidfeydd bysiau yn y Porth a Chaerdydd. Rydym wedi cyflwyno opsiynau tocynnau newydd gan gynnwys talu wrth fynd ac rydym yn ei gwneud hi'n haws i fwy o bobl gerdded, olwynio a beicio ar deithiau bob dydd. Mae'r rhain i gyd yn elfennau allweddol o gyflawni ein gwledigaeth o'r 'Rhwydwaith T', gydag un rhwydwaith, un amserlen, un tocyn ac un tîm wrth galon ein ffordd o feddwl.

Rydym eisiau ei gwneud hi'n haws i fwy o bobl ddefnyddio trafniadaeth gyhoeddus yn amlach. Mae hynny'n golygu ehangu i farchnadoedd newydd a thyfu rhai cyfredol. Byddwn yn gwneud hyn drwy wella ein gwasanaethau'n barhaus a chynnig rhai newydd lle mae galw a chyfle. Mae prosiectau fel Rhwydwaith Gogledd Cymru a Metro De Cymru, ochr yn ochr â'r gwaith parhaus o gyflwyno fflyd newydd, yn cynnig y cyfle i dyfu. Rydym hefyd wedi symud y tu hwnt i drafniadaeth yn unig. Eleni, fe wnaethom lansio Ffeibr TrC, gan gynnig rhynggrwyd cyflym gan ddefnyddio'r ceblau ffeibr a osodwyd wrth drydaneiddio'r rheilffyrdd.

Rydym hefyd wedi bod yn gosod y sylfeini ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol. Bydd y gwaith parhaus o drydaneiddio'r rheilffordd fel rhan o Fetro De Cymru,

cyflwyno trenau tram, cynlluniau i ehangu tocynnau talu wrth fynd i Ogledd Cymru a datblygu Cledrau Croesi Caerdydd yn sicrhau mai trafniadaeth gyhoeddus yw'r dewis cyntaf i fwy o bobl yng Nghymru.

Mae'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant wedi cyhoeddi cyllid ar gyfer nifer o brosiectau trawsnewidiol yng Nghymru. Mae'r prosiectau hyn yn ein galluogi i newid trafniadaeth gyhoeddus yng Ngogledd a De-ddwyrain Cymru fel rydym yn dechrau ei gweld gyda Metro De Cymru. Rydym yn barod i fasnachfreinio bysiau a fydd yn dechrau yn Ne-orllewin Cymru. Bydd bysiau'n dod yn rhan fwy annatod o'n gwaith. Bydd pa mor dda rydym yn cyflawni cenhadaeth Rhwydwaith T o un rhwydwaith, un amserlen, un tocyn, a ddarperir gan un tîm, yn allweddol i'n twf.

Mae eleni wedi dod â heriau. Yn yr hydref, roedd stormydd mawr yn golygu bod TrC wedi cau rheilffyrdd ac wedi atal bysiau. Ym mis Hydref 2024, bu gwrthdrawiad rhwng dau drên yn Nhalerddig. Roedd hwn yn ddigwyddiad trasig ac estynnaf fy nghydymdeimlad dwysaf i'r cwsmeriaid, cydweithwyr a'r teuluoedd yr effeithiwyd arnyn nhw. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid yn Network Rail ac eraill i wella cadernid ein rhwydwaith yn gyffredinol.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'n cwsmeriaid am eu cefnogaeth ac i dynnu sylw at ba mor bwysig yw'r undebau llafur o ran cefnogi a chynrychioli ein cydweithwyr. Diolch i'r Bwrdd, sy'n parhau i gynnig mewnwelediad craff a her adeiladol. Hoffwn ddiolch yn arbennig i Scott Waddington a fydd, ar ôl saith mlynedd o wasanaeth, yn rhoi'r gorau i fod yn Gadeirydd eleni. Mae ei gyngor a'i arweiniad wedi ein rhoi mewn sefyllfa gref i fod y dull teithio sy'n cael ei ffafrio yng Nghymru.



DATGANIAD Y CADEIRYDD, SCOTT WADDINGTON

Wrth i mi ddod i ddiwedd fy saith mlynedd fel Cadeirydd TrC, dyma'r amser i fyfrio ar y cynnydd enfawr rwyf wedi'i weld yn ystod fy nghyfnod yn y swydd. Mae Llinellau Craidd y Cymoedd bellach dan berchnogaeth Cymru ac mae rheilffyrdd Treherbert, Aberdâr a Merthyr i gyd wedi cael eu trydaneiddio.

Mae 77.1% o deithwyr yn teithio ar drenau newydd. Mae newidiadau i amserlenni wedi golygu bod mwy o'r wlad yn elwa o system trafndiaeth gyhoeddus dda. Mae hyn wedi'i gyflawni yn erbyn cefndir o ansicrwydd mawr - megis ymadawiad y DU o'r UE a'r pandemig - yn ei wneud yn fwy trawiadol byth. Wrth redeg sefydliad o ddydd i ddydd, gellir colli'r cynnydd cyffredinol hwn. Dylai pawb sy'n ymwneud â gwreiddu'r llwyddiant hynod hwn deimlo'n falch iawn.

Mae pobl Cymru nawr yn gweld manteision ein gwaith caled. Fe wyddom fod y gallu i deithio yn cynnig mwy o gyfleoedd cyflogaeth ac addysg i unigolion. Mae mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus yn achubiaeth i lawer. Mae'n angenrheidiol i dyfu'r economi a chreu swyddi. Rhaid i rôl TrC bob amser ymwneud ag adeiladu rhwydweithiau trafndiaeth a theithio integredig sy'n cefnogi'r gymdeithas ehangach, yr economi a gwaith i bobl Cymru.

Mae gwelliant parhaus a pherfformiad cyson o ansawdd uchel yn bwysig er mwyn gwreiddio trafndiaeth gyhoeddus mewn bywyd bob dydd. Bydd y gwasanaeth Metro ar draws Llinellau Craidd y Cymoedd yn cael ei gwblhau i raddau helaeth dros y flwyddyn nesaf, yn ogystal â chyflwyno gweddill ein cerbydau newydd - hwb enfawr i brofiadau teithio ein cwsmeriaid.

Mae'r gwaith cynllunio ar gyfer diwygio bysiau yn mynd rhagddo'n dda. Gan fod y Rhwydwaith T wedi'i wreiddio,

bydd cysylltu llwybrau cerdded, olwynio a beicio â thrafnidiaeth gyhoeddus yn hanfodol i waith TrC yn y dyfodol.

Mae pa mor dda y gall TrC ymateb pan fydd pethau'n mynd o chwith yn parhau i fod yn un o'r ffyrdd mwyaf uniongyrchol o farnu perfformiad. Wrth symud ymlaen, rhaid dysgu gwersi'n gyflym a bydd gwytnwch yn hollbwysig. Er ei bod braidd yn ansicr beth fydd yr heriau a'r cyfleoedd dros y blynyddoedd nesaf, rwy'n credu bod TrC mewn sefyllfa dda erbyn hyn i ymateb yn effeithiol i ansicrwydd o'r fath.

Yn yr un modd ag y mae agor trafndiaeth gyhoeddus i fwy o bobl yn bwysig i gymdeithas, mae hefyd yn agor cyfleoedd gyrfa yn y sector. Ers gormod o amser, is-adran gul o gymdeithas sydd wedi bod yn dominyddu'r diwydiant trafndiaeth. Mae TrC yn bwriadu newid hynny a byddwn yn annog rhagor o newid radical a chyflym.

Cyn i mi gamu i lawr fel Cadeirydd, hoffwn ddiolch i aelodau'r bwrdd y daeth eu cyfnod i ben y llynedd am eu cefnogaeth ac am fod mor barod i roi o'u hamser a'u gwybodaeth i wella TrC. Rwy'n croesawu aelodau anweithredol newydd ein bwrdd a fydd, rwy'n gwybod, yn helpu i ddatblygu ein harbenigedd o ran darparu gwell trafndiaeth i Gymru yn y dyfodol. Diolch i'n holl gydweithwyr ar draws y sefydliad am eich holl waith caled, eich ymrwymiad a'ch cefnogaeth i'r diwylliant cadarnhaol sy'n datblygu yn TrC. Yn olaf, diolch i James Price am ei arweinyddiaeth a'i gefnogaeth ragorol yn ystod fy nghyfnod yn y swydd.



EIN STRWYTHUR A MESUR EIN PERFFORMIAD

Mae Trafnidiaeth Cymru (TrC) ym mherchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru. Rydym yn sefydliad nid-er-elw. Mae gennym bedwar is-gwmni gweithredol: Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig, Gwasanaethau Arloesi TrC Cyfyngedig, Pullman Rail Limited a TrC Ffeibr Cyfyngedig

Fel corff sy'n cael arian cyhoeddus, rydym wedi ymrwymo i ddangos ein bod yn agored ac yn dryloyw yn y ffordd rydym yn rhedeg ein busnes. I fesur ein cynnydd, rydym yn defnyddio [dangosyddion perfformiad allweddol](#). Rydym yn cyhoeddi'r canlyniadau bob chwarter a bob blwyddyn. Mae'r rhain yn dangos ein cynnydd o ran cyflawni'r cylch gwaith a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.



TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Rheilffyrdd
Trafnidiaeth Cymru
Cyfyngedig**

Cwmni dan berchnogaeth
lwyr Trafnidiaeth Cymru

**Gwasanaethau
Arloesi TrC**

Menter ar y cyd rhwng
Trafnidiaeth Cymru a
Keolis Amey

**Pullman Rail
Limited**

Cwmni dan berchnogaeth
lwyr Trafnidiaeth Cymru

**TrC Ffeibr
Cyfyngedig**

Cwmni dan berchnogaeth
lwyr Trafnidiaeth Cymru

YN CYFLWYNO'R RHWYDWAITH T

Mae'r Rhwydwaith T yn cynrychioli ein strategaeth ar gyfer y dyfodol: trafnidiaeth integredig, aml-ddull a chwsmeriaid yn gyntaf ar gyfer Cymru a'r gororau. Mae'n eiddo i bawb. Mae'r Rhwydwaith T yn dod â'n systemau trafnidiaeth at ei gilydd yn un cyfanwaith di-dor.

Rydym yn cyflogi 4,500 o bobl ledled Cymru a'r gororau. Eleni, fe wnaethom lansio ein gweledigaeth, ein cenhadaeth, ein pwrpas a'n gwerthoedd newydd. Cafodd yr egwyddorion arweiniol hyn eu datblygu ar y cyd â mewnbwn o bob rhan o'r sefydliad, gan sicrhau eu bod yn adlewyrchu pwy ydym ni ac i ba gyfeiriad rydym yn mynd. Rydym yn meithrin diwylliant sydd wedi'i wreiddio mewn cynhwysiant, twf a dysgu. Dylai ein pobl bob amser ffynnu a chyfrannu at weithle sy'n cael ei arwain gan bwrpas.

GWELEDIGAETH

Hoff ffordd o deithio pobl Cymru

CENHADAETH

Un Rhwydwaith
Un Amserlen
Un Tocyn
Un Tîm

DIBEN

Rydym yn helpu pobl i deithio mewn ffyrdd sy'n dda i'r blaned, yn dda i'r boced ac yn dda i fywyd go iawn.

GWERTHOEDD

Rydym yn gwneud y peth iawn
Rydym yn herio ein hunain
Rydym yn un



AMCANION LLESIANT

Ym mis Mehefin 2024, daeth TrC yn gorff sydd wedi'i enwi o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae bod yn gorff a enwir yn gosod dyletswydd newydd i bennu a chyhoeddi amcanion llesiant, sydd wedi'u cynllunio i gynyddu ein cyfraniadau at y nodau llesiant.

Rydym wedi nodi pedwar amcan llesiant i'n harwain i lunio Cymru well:

- | | | | |
|---|-------------------------------------|---|---------------------------------------|
| 1 | Galluogi pobl a chymunedau | 2 | O fudd i'r amgylchedd |
| 3 | Cefnogi ardaloedd lleol a'r economi | 4 | Dyrchafu'r Gymraeg a diwylliant Cymru |

Mae'r amcanion hyn yn rhan o bwy ydym ni. Maen nhw'n siapio ein penderfyniadau, ein gweithrediadau a'n diwylliant.



RHAGAIR YSGRIFENNYDD Y CABINET

Rwy'n falch iawn o gael dathlu gyda chi yr ymrwymiad a'r cynnydd rhyfeddol rydym wedi'i wneud at wella ansawdd a dibynadwyedd ein system trafndiaeth gyhoeddus yng Nghymru.



Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi cychwyn ar daith uchelgeisiol i drawsnewid ein seilwaith trafndiaeth. Mae ein buddsoddiad o £800 miliwn mewn trenau newydd ers sefydlu TrC yn ein galluogi i ddarparu profiad trafndiaeth modern, effeithlon a chynaliadwy i bob teithiwr.

Ers sefydlu TrC, mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu dros £1 biliwn i TrC uwchraddio ein seilwaith, er mwyn gwella diogelwch, dibynadwyedd a chapasiti ein rhwydweithiau rheilffyrdd a bysiau. O wella gorsafoedd i uwchraddio traciau, bydd y gwelliannau hyn yn cefnogi'r galw cynyddol am drafndiaeth gyhoeddus a sicrhau bod ein gwasanaethau'n diwallu anghenion y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Hoffwn ddiolch o galon i holl gydweithwyr Trafnidiaeth Cymru (TrC) am eu hymroddiad a'u hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus eithriadol. Mae eich gwaith caled a'ch dyfalbarhad wedi bod yn allweddol i gyflawni'r cerrig milltir hyn ac rwy'n hyderus y byddwn, gyda'n gilydd, yn parhau i drawsnewid ein system drafndiaeth.

Wrth edrych ymlaen, mae dyfodol trafndiaeth gyhoeddus yng Nghymru yn ddisglair. Nawr yw'r amser iawn i Ogledd Cymru gael yr un lefel o uchelgais ag y mae Metro De Cymru wedi'i gweld. Bydd Rhwydwaith Gogledd Cymru yn integreiddio rheilffyrdd a bysiau yn y rhanbarth, gan ddarparu cyfleoedd a swyddi.

Ledled Cymru, rydym yn edrych ar atebion arloesol fel masnachfreinio bysiau a diwygio rheilffyrdd i wella effeithlonrwydd a hygyrchedd ein gwasanaethau ymhellach. Bydd y mentrau hyn yn paratoi'r ffordd ar gyfer rhwydwaith trafndiaeth mwy integredig a di-dor, a fydd o fudd i holl drigolion Cymru a thu hwnt.

Rydwn i eisiau ailddatgan ein hymrwymiad i weithio gyda TrC i adeiladu system drafndiaeth sy'n ddibynadwy, yn gynaliadwy ac yn gynhwysol, gan sicrhau bod ein cymunedau'n cael eu cysylltu a'u cefnogi'n dda.



ADRODDIAD HEATHER CLASH Prif Swyddog Cyllid, Llywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol

Mae cynyddu refeniw teithwyr yn un o'n blaenoriaethau craidd ac nid oedd y flwyddyn ddiwethaf hon yn eithriad. O'r herwydd, rwy'n falch o weld cynnydd mawr yn nifer y teithwyr a refeniw rheilffyrdd eleni. Hefyd, mae twf cyson wedi bod yn nifer y bobl sy'n teithio ar fysiau gwasanaethau TrawsCymru.



Rydym yn canolbwyntio ar wella gwasanaeth i gwsmeriaid er mwyn cynyddu teithiau cwsmeriaid a fydd, yn ei dro, yn cynyddu refeniw. Rydym wedi gweld cynnydd yn sgoriau boddhad cwsmeriaid. Fel rhan o'n hymgyrch, rydym wedi cyflwyno tocynnau trên talu wrth fynd yn Ne Cymru ac mae'r nifer sy'n eu defnyddio yn addawol.

Rydym yn helpu i wneud teithiau bws yn fwy di-dor ar draws gweithredwyr ac rydym yn edrych ar gyfleoedd i gyflwyno tocynnau trên talu wrth fynd yng Ngogledd Cymru. Rydym yn gwella llwybrau beicio, cerdded ac olwynio i orsafoedd rheilffordd ac arosfannau bysiau er mwyn darparu mwy o deithio cydgysylltiedig. Bydd y gwelliannau hyn yn ein rhoi yn y sefyllfa orau bosib ar gyfer twf refeniw parhaus a chodi ein boddhad uchel ymysg cwsmeriaid.

Mae'r cynnydd hwn mewn refeniw wedi rhedeg ochr yn ochr â'n buddsoddiad sylweddol yn rheilffyrdd Cymru. Rydym wedi buddsoddi mewn trenau newydd, wedi adeiladu depo yn Ffynnon Taf ac wedi trydaneiddio llawer o Linellau Craidd y Cymoedd. Rydym yn adeiladu turn olwynion newydd yn depo Caergybi i wella dibynadwyedd y fflyd yn y gogledd. Y canlyniad yw gwasanaeth llawer gwell i'n cwsmeriaid (sy'n cael ei ddangos hyd yma gan y cynnydd mewn boddhad cwsmeriaid dros y flwyddyn ddiwethaf) a rhwydwaith mwy cynaliadwy a chadarn.

Rhaid i unrhyw brosiectau seilwaith eraill barhau i fod yn effeithiol ac yn ddiogel iawn ar yr un pryd â darparu gwerth am arian. Mae gwerth o'r fath yn arbennig o bwysig yn yr hinsawdd economaidd bresennol yn ogystal ag effaith chwyddiant ar gostau seilwaith. Rhaid cyflawni'r gwaith o ddiwygio bysiau, gwella teithio yng Ngogledd Cymru a chwblhau rhaglen seilwaith Llinellau Craidd y Cymoedd i gyd o dan y cyfyngiadau hyn.

Bydd ein dyheadau ar gyfer y rhwydwaith T sy'n cysylltu trafnidiaeth gyhoeddus â cherdded, olwynio a beicio ledled Cymru, yn ei gwneud yn ofynnol i TrC ddatblygu ein sgiliau a'n pobl. Bydd llwyddiant parhaus yn dibynnu ar gael pobl dalentog yn y llefydd iawn. Mae lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau a mwy o recriwtio o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli hefyd yn sail i'n dull gweithredu.



Perfformiad am y flwyddyn

Mae'r tabl isod yn nodi canlyniadau Grŵp TrC ar gyfer y flwyddyn. Rhennir y gwariant yn ôl y math o gyllid grant. Roedd ein gwariant yn unol â'r cyllid cylch gwaith a gwariant awdurdodedig arall, a oedd yn amrywio yn ystod y flwyddyn.

Mae'r canlyniadau'n seiliedig ar ffin gyllidebu llywodraeth ganolog. Nid yw'r canlyniadau'n cynnwys perfformiad Pullman Rail Limited na TfW Fibre Limited sy'n cael eu dosbarthu fel corfforaethau cyhoeddus hyd braich ac felly y tu allan i'r ffin ac eithrio ar gyfer trafodion cyllido a dosbarthu.

Gwariant	Cyllid gan Lywodraeth Cymru (cylch gwaith ac ychwanegol)	Cyfanswm gwariant (ac eithrio prosiectau masnachol)	Llai o refeniw allanol	Cyfanswm yr alldro a ariennir gan Lywodraeth Cymru
Refeniw	£378m	£631m	(£255m)	£376m
Cyfalaf	£361m	£358m	-	£358m
Asedau Hawl i Ddefnyddio IFRS16 Cyfalaf	£181m	£149m	-	£149m
Cyfanswm	£920m	£1138m	(£255m)	£884m

Mae alldro Llywodraeth Cymru'n cynnwys yr elfennau canlynol:

				Alldro
Gwariant	Cyllid grant gwasanaethau trên	Grantiau bysiau a theithio llesol i Awdurdodau Lleol a Gweithredwyr Bysiau	Cyllid grant cylch gwaith arall Llywodraeth Cymru	Cyfanswm y cyllid gan Lywodraeth Cymru
Refeniw	£308m	£5m	£63m	£376m
Cyfalaf	£44m	£47m	£267m	£358m
Cyfalaf - Asedau Hawl i Ddefnyddio IFRS16	£149m	-	-	£149m
Cyfanswm	£501m	£52m	£330m	£884m



Mae'r cyllid grant gwasanaethau rheilffyrdd a gafwyd yn ymwneud â thaliadau a wneir o dan y cytundeb grant i weithredu masnachfaint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau, sy'n cael ei gweinyddu gan TrC ar ran Llywodraeth Cymru.

Mae perfformiad y fasnachfaint rheilffyrdd isod. Mae refeniw rheilffyrdd wedi tyfu 17.8% ers y llynedd. Gwelodd rhwydwaith Cymru a'r Gororau y lefelau uchaf erioed o refeniw. Mae eleni wedi ein rhoi mewn sefyllfa dda i barhau i gynyddu refeniw rheilffyrdd yng Nghymru a'r gororau a chyrraedd y targed uchelgeisiol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Cymhorthdal refeniw masnachfaint rheilffyrdd	£m
Cyfanswm refeniw teithwyr a refeniw arall nad yw'n ymwneud â Llywodraeth Cymru	£214.1
Costau staff	(£254.6)
Costau cerbydau	(£116.6)
Taliadau perfformiad (net incwm gan Network Rail a chwmnïau trenau eraill am darfu ar wasanaethau)	(£6.3)
Costau seilwaith	(£79.9)
Costau gweithredu eraill*	(£51.3)
Cyfanswm gwariant gweithredu	(£508.7)
Llog les IFRS16 a chostau cyllid eraill	(£13.1)
Cyfraniadau at y diffyg yn y pensiwn	(£0.2)
Cymhorthdal refeniw Llywodraeth Cymru sydd ei angen (ar ôl IFRS16)	(£307.9)

**Mae'r costau gweithredu eraill yn ymwneud yn bennaf â mesurau diogelwch, prosiectau TG a digidol, ymgyrchoedd marchnata a hysbysebu yn ogystal â chynlluniau yswiriant a diwydiant.*

Ein datganiadau ariannol

Mae'r datganiad incwm cyfunol yn dangos colled o £32 miliwn ar gyfer y flwyddyn (2023/24: £33 miliwn).

Mae'r golled gyfrifyddu hon yn cael ei chynhyrchu oherwydd bod TrC yn defnyddio polisi ailbrisio ar gyfer ei asedau rhwydwaith rheilffyrdd, sy'n golygu bod y dibrisiant blynyddol o £64 miliwn (2023/24: £57 miliwn) ar gyfer y rhwydwaith rheilffyrdd yn sylweddol uwch na'r cyllid grant cysylltiedig sy'n cael ei amorteiddio drwy'r datganiad incwm o £37 miliwn (2023/24: £23 miliwn).

Felly, bydd hyn yn arwain at golled flynyddol barhaus yn y datganiad incwm yn unig. Caiff y golled hon ei gwrthbwysio drwy drosglwyddiad yn y Datganiad am Newidiadau mewn Ecwiti o'r gronfa ailbrisio i warged wrth gefn o £27 miliwn (2023/24: £34 miliwn).

Mae'r gwarged/(colled) wrth gefn ar ôl yr addasiadau hyn wedi'u nodi isod:

Gwarged wrth gefn sylfaenol	2024/25 £m	2023/24 £m
Gwarged/(colled) cyn trosglwyddo cronfeydd wrth gefn	(£32.3)	(£33.3)
Trosglwyddo arian wrth gefn	£26.5	£34.4
Symudiadau eraill mewn incwm cynhwysfawr	£0.2	£0.3
Gwarged/(colledion) wrth gefn ar gyfer y flwyddyn	(£5.5)	£1.5



Gan nad yw TrC a Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf yn gwneud elw, mae'r gwarged wrth gefn yn cynnwys gwahaniaethau amseru rhwng costau ac incwm sy'n ymwneud â lesioedd a phensiynau yn bennaf, yn ogystal â pherfformiad ein his-gwmnïau masnachu hyd braich Pullman Rail Limited a Ffeibr TrC, a swm bach o gyllid grant i gaffael tir sy'n ymwneud â phrosiect Metro De Cymru gan ddefnyddio cyllid grant cyfalaf (sydd, yn unol ag IFRS, yn cael ei gydnabod fel incwm yn y flwyddyn gaffael).

Roedd cyfanswm y treuliau ar gyfer y flwyddyn yn £827 miliwn (2023/24: £741 miliwn). Mae'r twf hwn yn cael ei sbarduno gan gynydd mewn staff, dibrisiant a chostau eraill sy'n gysylltiedig â cherbydau rheilffyrdd newydd a mwy o wasanaethau, ochr yn ochr â chostau cynnal a chadw a dibrisiant uwch sy'n deillio o welliannau i rwydwaith Llinellau Craidd y Cymoedd.

Gwnaethom hefyd hwyluso taliadau grant uniongyrchol megis £47 miliwn o daliadau grant teithio llesol i awdurdodau lleol a £5 miliwn o daliadau grant bysiau TrawsCymru i awdurdodau lleol a gweithredwyr bysiau (2023/24: £46 miliwn a £5 miliwn). Er bod y taliadau grant hyn wedi'u cynnwys yn ein cylch gwaith a'n hadroddiadau alldro ar [dudalen 11](#), nid yw'r cyllid na'r taliadau'n cael eu dangos fel incwm a chostau yn Natganiad TrC o Incwm Cynhwysfawr ar [dudalen 69](#). Y rheswm am hyn yw bod TrC yn gweithredu fel asiant gweinyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer y grantiau hyn, nid rhoddwr y grant.

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd yr asedau cyfalaf sydd gennym yn werth £4.1 biliwn (2023/24: £3.9 biliwn). Cawsom £430 miliwn o ychwanegiadau cyfalaf yn ystod y flwyddyn (2023/24: £724 miliwn) yn ogystal â £23 miliwn o wariant cyfalaf wedi'i ariannu gan grant (2023/24: £23 miliwn) mewn perthynas â gwariant sy'n gymwys i gael cyllid grant cyfalaf ond nad yw'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cyfalafu ar ein mantolen.

Mae hyn wedi'i gynnwys yn y treuliau gweinyddol yn y datganiad incwm.

Rydym yn asesu gwerth rhwydwaith trên Llinellau Craidd y Cymoedd drwy broses brisio, sydd i'w gweld yn nodyn 8 y cyfrifon. Mae'r prisiad yn seiliedig ar gost amnewid dibrisiedig cyfwerth modern. Y gwerth ym mis Mawrth 2025 yw £2.7 biliwn. Mae'r gwerth yn parhau i gynyddu o un flwyddyn i'r llall wrth i elfennau ar ein datblygiad Metro De Cymru gael eu cwblhau a dechrau cael eu defnyddio - defnyddiwyd £599m eleni, gyda balans sy'n weddill o £510m mewn asedau sy'n cael eu hadeiladu ac a fydd wedi'u cwblhau yn ystod y ddwy flynedd nesaf.

Er bod y rhan fwyaf o'n hasedau eiddo, offer a chyfarpar yn gysylltiedig â seilwaith rheilffyrdd, rydym hefyd yn dal £703 miliwn o asedau cyfalaf mewnol eraill. Mae'r rhan fwyaf o'r balans hwn yn ymwneud â cherbydau sy'n cael eu prydlesu (asedau hawl i ddefnyddio a gwariant y gellir ei briodoli). Mae'r asedau eraill sydd gennym yn cynnwys eiddo a berchnogir ac a brydesir, a gwelliannau, offer a pheiriannau, offer TG a meddalwedd cysylltiedig.

Mae gennym £641 miliwn o asedau wrthi'n cael eu hadeiladu ym mis Mawrth 2025, sy'n cynnwys gweddill y gwaith sy'n cael ei wneud i gefnogi datblygiad Metro De Cymru ac nad yw wedi dechrau cael ei ddefnyddio eto, a chostau cyfalaf mewn perthynas â chyflwyno fflyd newydd.

Mae gennym £190 miliwn o asedau cyfredol, symiau masnach derbyniadwy yn bennaf a £240 miliwn o rwymedigaethau cyfredol, symiau taladwy cronedig yn bennaf. Mae'r symiau taladwy drwy fasnach a anfonebir yn gymharol isel (£29 miliwn) gan ein bod yn ceisio talu'r holl gyflenwyr yn brydlon.

Mae gennym rwymedigaethau anghyfredol o £2.6 biliwn. Mae'r rhan fwyaf o'r balans hwn yn gyllid grant cyfalaf gohiredig, sy'n cael ei ryddhau dros oes economaidd ddefnyddiol asedau'r cyfalaf cysylltiedig. Mae balans rhwymedigaethau prydles hefyd sy'n parhau i gynyddu wrth i ni ddefnyddio mwy o unedau cerbydau newydd.

Edrych tua'r dyfodol

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru lythyr cylch gwaith pum mlynedd i TrC yn 2023 ac mae'n darparu llythyr cyllid blynyddol ar wahân ar gyfer y gyllideb a ddyrannwyd i gynnal gweithgareddau penodol yn ystod y flwyddyn ariannol honno. Mae TrC yn cael ei ddal yn atebol am gyflawni cerrig milltir y cynllun busnes ac rydym yn olrhain perfformiad drwy fesurau fel [dangosyddion perfformiad allweddol](#), yr adroddir arnynt bedair gwaith y flwyddyn. Mae hyn yn ein galluogi i fod yn dryloyw a chael ein dal yn atebol am wario arian cyhoeddus. Mae'r mesurau hyn yn arwain ein buddsoddiad, yn helpu i wella gwasanaethau, yn dangos arbedion effeithlonrwydd posibl ac yn sbarduno mwy o refferniw dros y blynyddoedd nesaf.

Yn anad dim, mae arnom eisiau parhau i gynnal lefel uchel o fodlonrwydd ymysg cwsmeriaid, cynyddu refferniw a sicrhau gwerth am arian o ran cymhorthdal cyhoeddus i deithwyr. Wrth gynhyrchu mwy o refferniw, byddwn yn dibynnu llai ar y cymhorthdal gan Lywodraeth Cymru.



CYFALAF | £508M

£508M

£225M

Gwaith dylunio ac adeiladu i drawsnewid asedau rheilffyrdd Llinellau Craidd y Cymoedd

£197M

Buddsoddiad ar gyfer gwasanaethau cludo teithwyr ar y rheilffyrdd, gan gynnwys cerbydau newydd, a gwella depos a gorsafoedd

£14M

Gwaith adnewyddu'r trefniadau rheoli seilwaith a gwariant arall sy'n gysylltiedig â rheoli asedau rheilffyrdd

£8M

Prosiectau datblygu a pharatoi bysiau

£47M

Grantiau teithio llesol i awdurdodau lleol

£17M

Prosiectau eraill, gan gynnwys trafndiaeth ranbarthol, rhaglenni teithio llesol, ffyrdd a cherbydau trydan

REFENIW | £377M

£377M

£323M

Gwasanaethau cludo teithwyr ar y rheilffyrdd a chyfnewidfeydd trafndiaeth

£44M

Gwariant arall sy'n ymwneud â'r rheilffyrdd gan gynnwys costau perchennog seilwaith a gwaith cyn cyfalaf ar wella gorsafoedd

£4M

Gwasanaethau bysiau, ffyrdd ac aml-ddull a ariannwyd gan refeniw

£5M

Grantiau i gefnogi gwasanaethau bysiau



BETH RYDYM WEDI'I GYFLAWNI ELEN



CYNYDDU NIFER Y TEITHWYR RHEILFFYRDD A REFENIW

19.1%

o gynnydd
blynyddol yn nifer
y teithiau teithwyr.



Cynyddodd teithiau teithwyr 19.1% o'i gymharu â'r llynedd. Rydym wedi gweld cynnydd cyfatebol mewn gwerthiant tocynnau o £148.4 miliwn yn 2023/24 i £174.8 miliwn yn 2024/25. Gwelodd rhwydwaith Cymru a'r Gororau y lefelau uchaf erioed o refeniw.

Mae'r ffordd y mae teithwyr yn teithio wedi newid.. Mae nifer y teithiau o dan 20 milltir wedi cynyddu'n sylweddol.

Rydym hefyd wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n teithio ar ddydd Sul. Drwy gynnwys dydd Sul yn yr wythnos waith, rydym wedi gallu darparu gwasanaeth mwy dibynadwy.

Rydym yn cynnal ymgyrchoedd marchnata er mwyn cynyddu'r galw am drafnidiaeth gyhoeddus a chynyddu refeniw. Roedd yr ymgyrchoedd hyn yn darparu enillion cryf ar fuddsoddiad, gan ganiatáu i ni gynyddu teithiau teithwyr ac ailfuddsoddi'r incwm.



NEWIDIADAU I AMSERLENNI

Ym mis Rhagfyr 2024, fe wnaethom gyflwyno newidiadau i amserlen rheilffyrdd ledled Cymru. Dyma un o'r newidiadau mwyaf ers cenhedlaeth.

Roedd y manteision yn cynnwys mwy o drenau yr awr ar wasanaethau Swanline, Aberdaugleddau ac Abergwaun. Cyflwynwyd trenau newydd ar Linellau Craidd y Cymoedd. Mae trenau hwyrach nawr yn rhedeg rhwng Abertawe a Chaerdydd, a Chaerdydd a Maesteg.

Roedd yn golygu bod llai o wasanaethau ar reilffordd y Cambrian a rheilffordd Calon Cymru. Gwnaethom y newidiadau hyn ar ôl ymgynghori'n helaeth â'r cymunedau lleol ac rydym yn edrych ar ffyrdd o liniaru'r effaith drwy, er enghraifft, redeg gwasanaethau bysiau ar gyfer y llwybr. Rydym yn edrych eto ar effaith y gostyngiad hwn mewn gwasanaethau a byddwn yn rhyddhau rhagor o wybodaeth ym mis Rhagfyr 2025.



STOPIO MEWN TRAEAN YN FWY

o orsafoedd na'r llynedd oherwydd newidiadau i amserlenni



TRENAU



NEWYDD

Ym mis Mai 2025, roedd 77.1% o deithiau'n
cael eu gwneud ar drenau newydd.



TRENAU TEITHIO Â BEIC

Ym mis Chwefror 2025, fe wnaethom lansio ein cerbydau cario beiciau cyntaf ar reilffordd Calon Cymru.

Mae'r trenau'n cynnig 10 lle i feiciau a gallant drosglwyddo tandemau. Mae 108 o seddi ar y trenau hyn, cynnydd o 42 o'i gymharu â'r trenau un cerbyd.



TALU WRTH FYND

Rydym wedi cyflwyno tocynnau trên talu wrth ddefnyddio â chardiau credyd a debyd mewn 95 o'n gorsafoedd ar draws De Cymru.

Yn ystod y tri mis cyntaf, gwnaed 150,000 o deithiau gan ddefnyddio talu wrth fynd. Mae'n haws ei ddefnyddio ac yn cynnig arbedion i gwsmeriaid. Byddwn yn edrych ar sut y gellir ehangu hyn i rannau eraill o'n rhwydwaith, gan gynnwys Gogledd Cymru.



CYNYDDU CYSYLLTIADAU

Rydym bellach yn darparu mannau parcio beiciau mewn 145 o'n 246 o orsafoedd.

124,133

o deithiau gyda chymorth i deithwyr anabl a bregus





GWELLA PROFIAD CWSMERIAID

Y llynedd, roedd cynnydd o draean yn nifer y cwsmeriaid a oedd yn teithio ar Ddosbarth Cyntaf, gyda chynnydd cyfatebol o fwy na thraean mewn refeniw Dosbarth Cyntaf.



CYNNYDD O FWY NA THRAEAN

mewn refeniw
Dosbarth Cyntaf

Er mwyn gwella ein dewisiadau bwyd Dosbarth Cyntaf, rydym wedi adeiladu cegin baratoi newydd yng Nghasnewydd.

Mae ein cogyddion wedi bod yn gweithio gyda James Sommerin, y cogydd o Gymru sydd wedi ennill seren Michelin, i gynhyrchu bwydlen newydd i'w chyflwyno yn 2025/26.

Gan weithio mewn partneriaeth â Seatfrog, rydym wedi cyflwyno uwchraddiadau Dosbarth Cyntaf ar reilffordd y Gororau. Mae hyn yn rhoi ffordd newydd i gwsmeriaid brynu uwchraddiad.

Gan weithio gyda JurnyOn, rydyn ni wedi cyflwyno dull teyrngarwch a gwobrau sy'n seiliedig ar danysgrifiadau i deithwyr sy'n teithio ar ein rhwydwaith.



TRAWS CYMRU

Cynyddodd nifer y teithiau gan deithwyr ar contractau TrawsCymru rydym yn eu rheoli 11.4% y llynedd gydag 1.2 miliwn o deithiau'n cael eu gwneud.

Roedd gwelliannau i wasanaethau'n cynnwys mwy o wasanaethau dydd Sul ac addasu amserlenni'r haf i ymateb i'r galw. Roedd nifer y cwynion ac achosion o ganslo yn dal yn isel.

Rydym eisoes yn darparu tocynnau trên a bws integredig ar y gwasanaeth T1 (Aberystwyth i Gaerfyrddin) a bydd hyn yn cael ei gyflwyno i ddatblygu llwybrau TrawsCymru yn 2025.



TAPIO AR Y DECHRAU



TAPIO AR Y DIWEDD

Eleni, talwyd am dros ddwy ran o bump o'r holl docynnau bws yng Ngogledd Cymru drwy system talu digyswllt Tapio ar y Dechrau a'r Diwedd.



TRYDANEIDDIO RHEILFFYRDD

Mae'r gwaith o drydaneiddio rheilffyrdd Treherbert, Aberdâr a Merthyr wedi'i gwblhau. Mae trenau newydd nawr yn rhedeg arnynt.

Rydym wedi parhau â'r gwaith i wella a thrydaneiddio Llinell y Bae.

Ers 2020, rydym wedi gosod 120km o geblau uwchben a 70km o geblau foltedd uchel. Mae 25 o'n gorsafoedd bellach yn cynnig mynediad gwell i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn a phobl fregus.

Wedi gosod

120KM

o geblau uwchben



GWEITHREDU O DDEPO FFYNNON TAF

Fe wnaethom ddechrau gweithredu o Ddepo Ffynnon Taf ym mis Gorffennaf 2024.

Mae'r depo yn gartref i'n trenau tram newydd a fydd yn rhedeg ar draws Caerdydd ac i fyny'r cymoedd. Mae wedi dod â chyfleoedd cyflogaeth, gan greu dros 200 o rolau newydd.



CLEDRAU CROESI CAERDYDD

Mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd, rydym yn adeiladu tramffordd newydd sbon o orsaf drenau Caerdydd Canolog i Fae Caerdydd.

Ym mis Medi 2024, fe wnaethom lansio ymgynghoriad cyhoeddus, gyda dros dri chwarter y cyfranogwyr a holwyd naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno i raddau bod angen cysylltiad cludo torfol uniongyrchol gwell ar Gaerdydd.

Mae bellach yn cael ei ariannu ac rydym yn gweithio gyda Chyngor Caerdydd i ddylunio cyswllt uniongyrchol trenau tram rhwng Caerdydd Canolog a Bae Caerdydd.



MASNACHFREINIO BYSIAU

Mae'r fenter pontio i fasnachfreinio wedi golygu bod Powys, Ceredigion a TrC wedi cydweithio i wella gwasanaethau bysiau lleol a'r system drafnidiaeth ehangach rhwng nawr a 2030.

Mae hyn cyn y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) a fydd, os caiff ei basio, yn caniatáu i ni (mewn cydweithrediad agos ag awdurdodau lleol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig) gynllunio a chydlynu gwasanaethau bysiau ar lefel genedlaethol.



3,500

o wasanaethau
bws yr wythnos
yn gweithredu
o Gyfnewidfa
Fysiau Caerdydd



CYFNEWIDFA FYSIAU CAERDYDD


Agorodd Cyfnewidfa Fysiau Caerdydd ym mis Mehefin 2024. Mae nifer y gwasanaethau bysiau sy'n gweithredu o'r gyfnewidfa wedi cynyddu i ychydig o dan 3,500 yr wythnos.

Mae'r gyfnewidfa'n darparu cysylltiadau haws a gwybodaeth teithio integredig rhwng teithiau bysiau a threnau. Mae ganddo loriau botymog, map hygyrchedd, ac mae ganddo fannau manwerthu a hysbysebu newydd.



CYFNEWIDFA FYSAU PORTH

Agorodd Cyfnewidfa
Fysiau Porth ym mis
Chwefror 2025.



Agorodd Cyfnewidfa Fysiau Porth ym mis
Chwefror 2025. Buom yn gweithio'n agos
gyda Chyngor Rhondda Cynon Taf -
a sicrhodd y cyllid - i wneud yn siŵr bod y
gyfnewidfa'n gweithio i'r gymuned leol.
Mae'r gyfnewidfa'n dod â theithiau bws a
thrên at ei gilydd.

Rydym hefyd wedi gweithio gyda Stagecoach i
ddarparu tocynnau bws a thrên integredig rhwng
Caerdydd a Maerdy ar un tocyn.



TURN OLWYNION CAERGYBI

Rydym yn adeiladu turn olwynion newydd yn depo Caergybi.

Bydd hyn yn golygu bod modd trwsio olwynion trenau sydd wedi'u difrodi yn gynt a gwella dibynadwyedd y fflyd yn y gogledd. Bydd yn ein galluogi i reoli'n well effaith y tywydd garw.



GWELLIANNAU I ORSAF CAERDYDD CANOLOG

Rydym yn gwella gorsaf drenau brysuraf Cymru er mwyn lliniaru gorlenwi a darparu ar gyfer twf tymor hir mewn teithwyr.

Bydd yn cael ei ariannu gan hyd at £140 miliwn gan yr Adran Drafnidiaeth, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Llywodraeth Cymru. Eleni, fe wnaethom gyflwyno caniatâd cynllunio ar gyfer y gwelliannau. Mae'r gwaith o gyflawni'r cynllun yn amodol ar ganiatâd cynllunio a chymeradwyaeth lawn i'r achos busnes.



SIEDIAU BEICIAU

Rydym wedi datblygu cynllun peilot i ddarparu unedau siediau beiciau diogel i breswylwyr cymdeithasau tai.

I ddechrau, byddwn yn darparu 40 o unedau siediau beiciau gyda phum cymdeithas dai mewn deuddeg lleoliad gwahanol ledled Cymru.





DIBYNADWYEDD

85.7%

o drenau Llinellau
Craidd y Cymoedd
ar amser



Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gweithio'n galed i gadw ein cyfraddau canslo'n isel. Mae nifer y trenau ar amser ar reilffyrdd Cymru a'r Gororau wedi cynyddu dros bum pwynt canran eleni i 75.0%. Ar Linellau Craidd y Cymoedd, roedd 85.7% o'r trenau'n rhedeg yn brydlon.

Roedd y gwasanaeth trên rhwng Wrecsam a Bidston wedi gwella oherwydd ein bod wedi cyflwyno amserlen newydd. Ym mis Gorffennaf 2024, cyrhaeddodd 87.7% o drenau ar amser o'i gymharu â 48.4% ym mis Gorffennaf 2023.

Roedd rhai rheilffyrdd yn perfformio'n well nag eraill. Roedd gorsafoedd ar reilffordd Coryton yn cael gwasanaeth gwael. Fe wnaethom gydnabod hyn a rhoi cynlluniau ar waith i'w liniaru yn y tymor byr ac, yn y tymor hir, byddwn yn ceisio datrys y broblem gyda threnau newydd.

Gwelwyd cynnydd graddol yn nifer y trenau tri cherbyd neu fwy ar reilffordd y Gororau dros y flwyddyn ac, erbyn mis Mawrth 2025, roeddent yn cyfrif am dros dri chwarter y trenau a oedd yn rhedeg ar y rheilffordd.




GWIRTHDRAWIAD TRÊN YN NHALERDDIG

Ar 21 Hydref 2024, tarodd dau drên TrC ei gilydd yn Nhalerddig ar reilffordd y Cambrian.

Roedd yn wrthdrawiad araf. Cafodd 15 o bobl eu hanafu, pedwar ohonynt yn ddifrifol. Yn anffodus, bu farw un teithiwr.

Ymwelodd y Gangen Ymchwilio i Ddamweiniau Rheilffyrdd â safle'r ddamwain y noson honno a dechreuodd ymchwiliad statudol. Mae TrC yn cydweithredu'n llawn â'r ymchwiliad hwn. Byddwn yn dilyn unrhyw argymhellion ac yn dysgu o unrhyw faterion a godir gan yr ymchwiliad hwn.



EFFAITH TYWYDD EITHAFOL

Roedd stormydd Ashley, Bert, Darragh ac Éowyn i gyd wedi effeithio ar ein gallu i redeg gwasanaethau rheilffyrdd a bysiau.

Rydym yn gweithio i ddatblygu ffyrdd o wella ein cydnherthedd o ran tywydd eithafol, gan gynnwys contractio gwasanaethau yn lle trenau, gweithio'n agosach gyda Network Rail a gwella prydlondeb ein gwasanaethau adrodd.



RHWYDWAITH GOGLEDD CYMRU

Mae Rhwydwaith Gogledd Cymru yn gynnig gwerth biliynau o bunnoedd a fydd yn gwella teithio ledled Gogledd Cymru. Drwy wella seilwaith, rydym am gysylltu cymunedau, parciau busnes, trefi a chanol dinasoedd.

Bydd yn ceisio cysylltu Gogledd Cymru'n well â Dinas-ranbarth Lerpwl a rhanbarth Manceinion Fwyaf, gan greu cysylltiadau agosach.



Rhwydwaith
Gogledd Cymru
Network
North Wales



AROLWG TEITHIO CENEDLAETHOL CYMRU

Fe wnaethom lansio Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru ym mis Mawrth 2025.

Mae'r arolwg yn casglu data ar agweddau teithio a gwybodaeth am sut, pam, pryd a ble mae pobl yn teithio. Gwahoddir bron i 15,000 o aelwydydd i gymryd rhan yn ystod y flwyddyn, a disgwyli'r 5,000 o ymatebion. Dyma'r tro cyntaf y bydd gennym ddata dibynadwy ar gyfer arolygon teithio sy'n benodol i Gymru ers 2012, a byddwn yn darparu data dibynadwy i ni ac i Lywodraeth Cymru er mwyn monitro cynnydd.



TRAFNIDIAETH RANBARTHOL

Datblygu trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol.

Fe wnaethom gefnogi Cyd-bwyllgorau Corfforedig i gynhyrchu cynlluniau sy'n benodol i'r rhanbarth ar gyfer datblygu trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau i wella Caerdydd Canolog a Phorth Wrecsam. Mae TrC hefyd yn cefnogi adolygiadau trafnidiaeth fel y rheini sy'n cael eu harwain gan yr Arglwydd Burns yng Ngogledd Cymru a De-ddwyrain Cymru.



4

o bwyllgorau corfforedig wedi'u cefnogi i ddatblygu eu Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol.



CYDRADDOLDEB YN TRC

Mae'n bwysig ein bod yn adlewyrchu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Mae gennym ffordd i fynd gyda chydraddoldeb hiliol a rhywedd.

Eleni, fe wnaethom lansio ein cynllun gwrth-hiliaeth, sy'n nodi sut byddwn yn annog mwy o bobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig i wneud cais i TrC a llwyddo yno.

Roedd canolrif cyffredinol ein bwloch cyflog rhwng y rhywiau wedi ehangu eleni. I gau'r canolrif hwn, rydym yn bwriadu cyflogi mwy o fenywod fel gyrwyr trenau a goruchwylwyr. Rydym hefyd yn creu cynlluniau datblygu pwrpasol i fenywod sydd wedi'u nodi ar gyfer olyniaeth ac yn lansio rhaglen i bobl sy'n dychwelyd i yrfa (cefnogi pobl sydd wedi cael seibiant gyrfa oherwydd gofal plant, cyfrifoldebau gofalu neu salwch).



TREFNU DIGWYDDIADAU

Yn 2024, roedd miloedd o ddigwyddiadau wedi cael eu cynnal mewn llefydd sy'n cael eu gwasanaethu gan ein rhwydwaith.



250,000

o deithwyr wedi'u cludo
i mewn ac allan o orsaf
Caerdydd Canolog ar gyfer
digwyddiadau mawr eleni.

Roedd hyn yn cynnwys digwyddiadau cerddoriaeth proffil uchel fel Taylor Swift, Bruce Springsteen a Pink.

Fe wnaethom gefnogi digwyddiadau chwaraeon gan gynnwys Rygbi'r Chwe Gwlad, pêl-droed rhyngwladol, rasys Caer a gemau pêl-droed Wreccsam. Rydym yn darparu gwasanaethau ychwanegol ar gyfer Hanner Marathon Caerdydd.



100,000

o deithwyr wedi'u cludo i'r Eisteddfod dros wyth diwrnod.



YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL

Ym mis Awst 2024, cynhaliwyd yr Eisteddfod ym Mhontypridd. Ein rôl oedd hyrwyddo trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol i ymwelwyr.

Fe wnaethom gludo 100,000 o deithwyr dros wyth diwrnod. Roedd ein tîm wedi siarad â miloedd o bobl bob dydd am ein gwasanaethau a'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Roedd ein staff yn siarad Cymraeg ac yn cwrdd â chwsmeriaid o bob cwr o Gymru.



RHEILFFORDD 200

Mae Rheilffordd 200 yn dathlu 200 mlynedd ers i deithwyr deithio ar y rheilffordd dan bŵer stêm am y tro cyntaf erioed.

Gan weithio gyda diwydiant, cymunedau, academwyr ac amgueddfeydd, mae TrC yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau ledled Cymru a'r gororau.



EFFAITH



GYNALIADWY

Fe wnaethom gwblhau chwe phrosiect cymunedol newydd a deg prosiect gwaddol a oedd yn canolbwyntio ar bioamrywiaeth, treftadaeth a chefnogi mentrau effaith gymdeithasol ledled Cymru.

Fe wnaethom ddechrau ein prosiect cynaliadwyedd enghreifftiol yn Depo'r Barri drwy osod gardd llesiant a blychau bywyd gwyllt. Enillodd wobr Lefel 3 y Ddraig Werdd.



CERDDED, OLWYNIO A BEICIO

Rydym yn darparu mewnbwn dylunio technegol i 34 o brosiectau awdurdodau lleol.

Cafodd ein canolfan ddylunio ei chreu i wella ansawdd y ddarpariaeth teithio llesol yng Nghymru.

Mae ein pecyn cymorth wedi cael ei ddefnyddio'n helaeth gan awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i hyrwyddo cerdded, olwynio a beicio.



TRENAU NEWYDD

Drwy gyflwyno trenau newydd, mae allyriadau carbon deuocsid fesul cilomedr teithwyr trên wedi gostwng 3.6 gram dros y flwyddyn ddiwethaf i 80.5.

34

o brosiectau awdurdodau lleol wedi cael mewnbwn dylunio technegol gennym ni.





CERBYDAU TRYDAN

Fe wnaethom osod 19 o wefrwyr cyflym ar draws 10 gorsaf Llinellau Craidd y Cymoedd at ddefnydd y cyhoedd.

Mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a thirfeddianwyr eraill, gwnaethom gefnogi'r broses o barhau i gyflwyno seilwaith gwefru cyflym ledled Cymru. Fe wnaethom helpu Llywodraeth Cymru i asesu a monitro.



TROSI I FYSIAU TRYDAN

Rydym bob amser yn ceisio gwneud trafnidiaeth yn fwy cynaliadwy.

Eleni, rydym wedi trosi dau gerbyd o ddiesel i drydan batri. Rydym nawr yn disgwyl am yr ardystiad i gadarnhau eu bod yn addas i fod ar y ffordd cyn i ni ddechrau gwerthuso galluoedd y bysiau hyn mewn gwasanaeth.



Wedi gosod

19

o wefrwyr cyflym ar draws 10 gorsaf Llinellau Craidd y Cymoedd



RISG

Mae TrC yn cydnabod pwysigrwydd hanfodol rheoli risg ym mhob agwedd ar ein busnes. Rydym yn parhau i arloesi a datblygu ein prosesau rheoli risg, gan wreiddio diwylliant o ymwybyddiaeth risg ar draws y sefydliad. Wrth i TrC ddod yn gyfrifol am sawl dull teithio, mae'n hanfodol bod ein prosesau rheoli risg yn parhau i allu delio â risgiau sy'n dod i'r amlwg, ar yr un pryd â manteisio ar gyfleoedd.

Daw ein cryfder o gynllunio a lleoli strategol. Bob blwyddyn, rydym yn datblygu ac yn defnyddio strategaeth risg sy'n parhau i yrru ymlaen ein datblygiad rheoli risg. Dyma ein llwyddiannau eleni:

- Dros y flwyddyn ddiwethaf ers i reoli risg Llinellau Craidd y Cymoedd gael ei drosglwyddo i TrC, mae llywodraethu risg rhaglenni wedi cael ei gryfhau drwy weithredu a gwella prosesau i sicrhau bod risgiau'n cael eu nodi, eu hasesu, eu rheoli, a'u hintegreiddio'n systematig i brosesau gwneud penderfyniadau.
- Cynhaliwyd adolygiad risg manwl o'r Rhaglen Masnachfreinio Bysiau i roi sicrwydd bod trefniadau llywodraethu risg TrC yn parhau i gael eu hintegreiddio ar draws y rhaglen.
- Mae canllawiau nodi risg uwch TrC wedi cael eu cyflwyno ar draws y busnes i gefnogi'r gwaith o sganio'r gorwel yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. Mae hyn wedi cael ei gyfleu drwy fideos byr arloesol sy'n cyfleu'r negeseuon allweddol.
- Cynhyrchu Asesiadau Risg Meintiol ar gyfer costau rhaglenni a phrosiectau TrC i ddeall beth yw'r risg ac i sefydlu lefelau priodol o arian wrth gefn.
- Integreiddio Risgiau'r Gofrestr Risg Genedlaethol â System Rheoli Risg TrC i asesu a rheoli'r risgiau hynny a allai effeithio ar y sefydliad.
- Datblygu dangosfyrddau risg sydd wedi rhoi adnoddau delweddu data ychwanegol i'r Tîm Arwain Gweithredol, y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg sy'n caniatáu i risgiau, problemau a chyfleoedd byw gael eu harchwilio'n gyflym ac yn hawdd, gan ei gwneud yn broses effeithlon, weledol a rhyngweithiol.

Ar y cyfan, mae ein prif risgiau a phroblemau (y rheini a allai gael effaith sylweddol ar strategaeth, enw da, gweithrediadau neu gyllid), fel y rhan fwyaf o sefydliadau, wedi aros yn statig. Yn benodol, mae'r risgiau hyn yn ymwneud â'r her barhaus o ran diogelwch, ariannu, risgiau i gyllid, effeithlonrwydd, yr amgylchedd a newid yn yr hinsawdd a llwyddiant prosiectau mawr a'n gweithrediadau craidd.

Eleni, rydym wedi gweld y risgiau mwyaf dybryd yn cael eu huwchgyfeirio i'r Tîm Arwain Gweithredol, y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg er ymwybyddiaeth ac i gael cefnogaeth i'n hymateb. Dyma enghreifftiau o Brif Risgiau sydd wedi cael eu huwchgyfeirio ac yna eu hisgyfeirio'n ddiweddarach yn dilyn mesurau lliniaru effeithiol:

- Toriad pŵer tymor byr neu raddol sy'n gysylltiedig â chadernid ynni a hinsawdd y gaeaf.
- Llwyddo i gynnal yr Eisteddfod ym Mhontypridd ym mis Awst 2024.
- Rhoi prosiect Ffeibr TrC ar waith.
- Paratoi i gydymffurfio â'r Rheoliadau Caffael Cyhoeddus newydd.



Risgiau

Mae'r tabl hwn yn nodi'r Prif Risgiau a allai effeithio ar TrC eleni, wedi'u goruchwyllo gan y Tîm Arwain Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Risg, ac wedi'u hystyried a'u cymeradwyo gan y Bwrdd. Nid yw'r tabl yn rhestr gynhwysfawr o'r risgiau a'r ansicrwydd a all godi.

1. Methiant y partner rheoli seilwaith i weithredu

Disgrifiad o'r Risg	
Y partner rheoli seilwaith yn methu â chyflawni ei awdurdodiad i weithredu fel Rheolwr Seilwaith Llinellau Craidd y Cymoedd fel y cytunwyd gan y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd (ORR), gan arwain at golli'r gallu i reoli a chynnal seilwaith Llinellau Craidd y Cymoedd.	
Camau lliniaru	Cynnydd
- Llywodraethu ar lefel uwch a monitro perfformiad allweddol. - Monitro iechyd y gadwyn gyflenwi yn rheolaidd er mwyn deall iechyd cyflenwyr. - Archwiliadau, arolygiadau ac adolygiadau sicrwydd. - Adborth ac ymgysylltiad y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd. - Proses seilwaith y dewis olaf fel rhan o'r cynllun parhad busnes.	- Trefniadau llywodraethu a rheoli perfformiad clir ar waith ac yn cael eu defnyddio. - Caffael – rheoli cyflenwyr allweddol. - Rhaglenni sicrwydd ac archwilio TrC sy'n gysylltiedig â llywodraethu. - Rhyngweithio rheolaidd â'r Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd. - Rheoli parhad busnes.
Cyflymder yr effaith bosibl:	Llai na chwe mis.

2. Methiant Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig i weithredu

Disgrifiad o'r Risg	
Methiant Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig i gyflawni ei awdurdodiad i weithredu fel Gweithredwr Trên fel y cytunwyd gan yr ORR, gan arwain at golli'r gallu i weithredu gwasanaethau ac oedi neu darfu ar y rhaglen drawsnewid.	
Camau lliniaru	Cynnydd
- Llywodraethu ar lefel uwch a monitro perfformiad allweddol. - Systemau, prosesau a rhaglenni integredig. - Archwiliadau, arolygiadau ac adolygiadau sicrwydd. - Adborth ac ymgysylltiad y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd. - Cynlluniau llywodraethu'r bwrdd a pharhad busnes.	- Llywodraethu ar lefel uwch a monitro perfformiad allweddol. - Systemau, prosesau a rhaglenni integredig. - Archwiliadau, arolygiadau ac adolygiadau sicrwydd. - Adborth ac ymgysylltiad y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd. - Cynlluniau llywodraethu'r bwrdd a pharhad busnes.
Cyflymder yr effaith bosibl:	Llai na chwe mis.



3.Cyflawni'r gwaith o drawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd

Disgrifiad o'r Risg

Risg nad yw rhaglen trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd yn cael ei chyflawni o fewn yr amser a'r gyllideb ac nad yw'r system wedi ei hintegreiddio'n iawn.

Camau lliniaru	Cynnydd
- Rheolaeth gadarn dros reolwyr a rheoli rhaglenni a phrosiectau. - Adolygiadau rheolaidd o raglenni Gweithredu gwell llywodraethu a chraffu. - Rheoli risg yn fewnol. - Cynnydd mewn sgiliau TrC ac integreiddio gallu.	- Wedi cynnal adolygiadau rheolaidd o'r rhaglen ac ail-bennu llinell sylfaen. - Is-bwyllgor y Bwrdd yn ei le i fonitro a chefnogi prosiectau mawr.
Cyflymder yr effaith bosibl:	Llai na thri mis.

4. Digwyddiadau tywydd eithafol

Risk Description

Risg barhaus o amharu mawr ar y rhwydwaith oherwydd tywydd eithafol fel llifogydd, eira trwm, tymheredd uchel parhaus a gwyntoedd stormus.

Camau lliniaru	Cynnydd
- Strategaethau a rhaglenni tarfu tymhorol ar y cyd. - Monitro rhybuddion a rhagolygon y tywydd. - Rheoli llystyfiant ac asesu coed sydd wedi marw, coed sy'n marw a choed wedi'u heintio. - Adolygu safleoedd llifogydd a rhaglenni adfer. - Caniatáu i docynnau tymor rheilffordd gael eu defnyddio ar linellau eraill cyfagos a chynnal cytundebau gyda gweithredwyr bysiau. - Asesiadau risg newid yn yr hinsawdd a chynllun addasu.	- Cyfarfodydd paratoi a newid tymhorol ar waith gyda Rheolwyr Gweithrediadau Trenau a Seilwaith. - Wedi gosod gwasanaethau yn lle trenau ar gytundeb. - Datblygu cynllun addasu a chydnertheddd hinsawdd TrC.
Cyflymder yr effaith bosibl:	Llai na thri mis.



5. Rhaglen masnachfreinio bysiau

Disgrifiad o'r Risg

Risg na fydd TrC yn masnachfreinio bysiau a'r dyheadau a'r canlyniadau polisi bysiau ehangach yng Nghymru o ganlyniad i'r canlynol:

- Os nad yw'r ddeddfwriaeth i alluogi newid model masnachfreinio yn cael ei gwneud yn gyfraith.
- Dim digon o gyllid i alluogi newid a chyflenwi'r gwasanaeth a ddisgwyllir.
- Diffyg adnoddau a chpasiti i gyflawni'r rhaglen.

Camau lliniaru

- Llywodraethu ar y cyd rhwng TrC a Llywodraeth Cymru.
- Strategaeth mapio ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- Recriwtio a dyluniad y sefydliad.

Cynnydd

- Dogfen fapio wedi'i chyhoeddi ac yn cael ei defnyddio i ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- Trefniadau llywodraethu ar waith ac yn cael eu defnyddio gyda phroses uwchgyfeirio ar gyfer penderfyniadau.
- Mae nifer o ffrydiau gwaith busnesau bach a chanolig ar waith i ddatblygu cynlluniau penodol.
- Gweithio gydag awdurdodau lleol i flaenoriaethu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion pobl a chymunedau orau.

Cyflymder yr effaith bosibl:

Llai na chwe mis.

6. Rhwydwaith T

Disgrifiad o'r Risg

Risg nad yw TrC yn gallu gweithredu gwasanaethau trafndiaeth mewn ffordd integredig sy'n arwain at ddiffyg seilwaith ffisegol i gefnogi'r gwaith o ddarparu teithio aml-ddull.

Camau lliniaru

- Gweithio'n rhanbarthol ac yn genedlaethol i greu rhwydwaith teithio integredig yng Nghymru a'r gororau.
- Datblygu'r dechnoleg i alluogi cynllunio teithiau a phrynu tocynnau di-dor.
- Adeiladu'r drefn lywodraethu fewnol a'n ffyrdd o weithio.
- Newid diwylliant mewnol i gyflawni ein cenhadaeth o un rhwydwaith, un amserlen, un tocyn, un tîm.
- Datblygu brand sy'n canolbwyntio ar y cwsmer ac sy'n gyfystyr â theithio cynaliadwy integredig yng Nghymru.

Cynnydd

- Rydym yn darparu gwasanaethau ac yn gweithio ar brosiectau a fydd yn trawsnewid teithio yng Nghymru er budd y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Cyflymder yr effaith bosibl:

Llai na chwe mis.



DATGANIAD ADRAN 172

Sut mae'r Bwrdd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan a172

Mae Cyfarwyddwyr TrC, a'r Bwrdd gyda'i gilydd, yn rhwym wrth y dyletswyddau a nodir o dan a172 o Ddeddf Cwmnïau 2006, i hyrwyddo llwyddiant TrC er budd Llywodraeth Cymru, cwsmeriaid a rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae deall gofynion, pryderon ac uchelgeisiau ein rhanddeiliaid yn allweddol i helpu'r Byrddau i greu strategaeth fusnes effeithiol a chynaliadwy. Mae ystyried y materion hyn yn barhaus yn rhan annatod o drafodaethau a phenderfyniadau'r Bwrdd i sicrhau cynnydd cynllun corfforaethol TrC, yr amcanion strategol a hyrwyddo llwyddiant hirdymor TrC. Mae'r Bwrdd yn deall ei bod yn bwysig bod TrC yn cynnal ei enw da o ran cynnal busnes i'r safonau uchaf. Mae'r Bwrdd yn sicrhau bod gwahanol grwpiau rhanddeiliaid yn cael eu hystyried a'u trin yn deg yn ei drafodaethau. Gwneir pob penderfyniad yn unol â'n pwrpas, ein diwylliant a'n gwerthoedd.

Rydym wedi integreiddio ein hadroddiadau ar draws yr adroddiad blynyddol hwn i ddangos yn glir sut rydym wedi ystyried canlyniadau tymor hir ein penderfyniadau. Yn benodol, rydym yn ystyried ein cyfrifoldebau cyfreithiol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, buddiannau gweithwyr, cwsmeriaid a chyflenwyr, yr amgylchedd, ein cymunedau a Llywodraeth Cymru.

Mae'r Bwrdd yn hyrwyddo llwyddiant tymor hir TrC drwy sicrhau ei fod yn glynu wrth y safonau ymddygiad uchaf. Mae hyn yn cynnwys ei weithredoedd ei hun a gweithredoedd ei weithwyr, a deall goblygiadau hirdymor ei benderfyniadau. Dyma sut mae'n gwneud hyn:

Diffinio pwrpas, diwylliant, gwerthoedd a strategaeth TrC

Eleni, rydym wedi creu gweledigaeth, cenhadaeth, pwrpas a gwerthoedd newydd a fydd yn llywio popeth rydym yn ei wneud yn TrC. Wrth galon y trawsnewid hwn mae'r Rhwydwaith T, sy'n cynrychioli ein strategaeth ar gyfer system drafnidiaeth integredig, aml-ddull yng Nghymru yn y dyfodol. Mae ein pwrpas, ein diwylliant a'n gwerthoedd (ochr yn ochr ag ymgysylltu â gofynion ein rhanddeiliaid, a'u deall) yn helpu'r Bwrdd i lywio'r cyfeiriad strategol a buddiannau hirdymor TrC.

Sicrhau gwybodaeth o ansawdd uchel gan y Bwrdd

Mae llunwyr agenda'r Bwrdd yn nodi materion i'w hystyried gan y Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac yn cael eu diweddarau yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod cyfarfodydd y Bwrdd o'r safon uchaf a bod y Bwrdd yn parhau i fodloni gofynion newidiol y busnes a'i rhanddeiliaid. Mae papurau'r Bwrdd yn destun proses adolygu gadarn i sicrhau eu bod yn glir, yn gywir ac o'r ansawdd uchaf.

Trafodaethau a phrosesau gwneud penderfyniadau agored y Bwrdd

Mae amgylchedd Bwrdd TrC yn annog diwylliant o drafod a gwneud penderfyniadau agored, gonest ac atebol, sy'n cael ei herio'n drylwyr i sicrhau bod buddiannau'r rhanddeiliaid hynny'n cael eu deall a'u hystyried. Felly, mae penderfyniadau'n cael eu gwneud i gefnogi llwyddiant cynaliadwy hirdymor cyffredinol.

Deall sgiliau, gwybodaeth a phrofiad gofynnol y Bwrdd

Gyda'i gilydd, mae gan y Bwrdd arbenigedd a phrofiad eang a pherthnasol. Mae hyn yn llywio ac yn arwain y broses o wneud penderfyniadau i sicrhau eu bod o'r ansawdd uchaf ac er budd TrC yn y tymor hir, gan sicrhau bod disgwyliadau rhanddeiliaid perthnasol yn cael eu hystyried yn deg. Yn unigol, mae Cyfarwyddwyr yn canolbwyntio eu harbenigedd amrywiol ar wahanol feysydd o'r busnes i ddarparu cydbwysedd a goruchwyliaeth gadarn.



Ystyried buddiannau ac effaith rhanddeiliaid

Er mwyn helpu'r Bwrdd i gyflawni ei rwymedigaethau o dan a172, mae pob papur Bwrdd yn cynnwys dogfen eglurhaol sy'n amlinellu; i) pa rhanddeiliaid y gallai penderfyniad y Bwrdd ar y mater dan sylw effeithio arnynt, 11) esboniad o sut mae buddiannau'r rhanddeiliaid hynny wedi cael eu hystyried, iii) effaith penderfyniadau'r Bwrdd.

Ein cwsmeriaid: sut rydym yn ymgysylltu â nhw

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod buddiannau ein cwsmeriaid yn rhan greiddiol o'n prosesau gwneud penderfyniadau. Rydym yn gwahodd adborth gan ein grwpiau cynghori a chwsmeriaid yn rheolaidd, sy'n ein helpu i wella ein profiad i gwsmeriaid. Gall cwsmeriaid gysylltu â ni dros y ffôn, drwy lythyr neu ar-lein i gofrestru cwynion a rhoi adborth gwerthfawr iawn i ni. Ar ein gwefan, rydym yn darparu cymaint o wybodaeth â phosibl am ein gwasanaethau ac unrhyw newidiadau, yn enwedig unrhyw darfu sydd wedi'i gynllunio a heb ei gynllunio. Rydym yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael am sut i archebu cymorth teithio hygyrch.

Y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu

Mae ein gwasanaethau'n effeithio ar gymunedau ledled Cymru a'r gororau. Drwy ein timau Rheilffyrdd Cymunedol ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid, rydym yn meithrin cysylltiadau ac yn hyrwyddo anghenion cymunedol drwy brosiectau a digwyddiadau lleol cyn gwaith seilwaith mawr. Er na allwn bob amser atal tarfu, mae adborth yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac yn cael ei ymgorffori ar ffurf gwersi a ddysgwyd. Mae ein Panel Cynghori chwarterol (sy'n cynnwys cynrychiolwyr o grwpiau cwsmeriaid, y llywodraeth, diwydiant a chymunedau mylol) yn cynnig adborth a chynghor ar bynciau amrywiol i lywio ein penderfyniadau. Rydym hefyd wedi cyflwyno fforwm rhanddeiliaid Cymru Gyfan a'r Gororau bob chwarter, wedi'i rannu'n bedwar fforwm rhanbarthol, i lywio a chasglu adborth ar faterion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth gyhoeddus.

Ein pobl

Rydym yn cydnabod bod ein cydweithwyr yn hanfodol i'n llwyddiant. Maent yn rhoi adborth, awgrymiadau a phryderon yn rheolaidd yn ystod ein 'Trafodaethau Cwmni Cyfan' a thrwy ein rhwydwaith Viva Engage mewnol. Drwy ein Siarter Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Chydweithwyr, mae cydweithwyr ar bob lefel yn deall ein disgwyliadau o ran cyfathrebu ac ymgysylltu, yn unol â'n gwerthoedd corfforaethol. Mae gennym hefyd Friff Craidd, sy'n grynodeb o ddiweddariadau pwysig a pherthnasol ar draws y sefydliad. Mae'r mentrau hyn yn sicrhau bod ein dulliau cyfathrebu mewnol yn cefnogi gweledigaeth a gwerthoedd TrC a'u bod yn effeithlon ac yn gynaliadwy. Ar ben hynny, mae arolygon ymgysylltu yn cael eu cynnal o bryd i'w gilydd i gasglu adborth strwythuredig gan gydweithwyr, gyda'r arolwg ymgysylltu nesaf wedi'i drefnu ar gyfer haf 2025.

Ein cyflenwyr

Mae ein partneriaethau cyflenwyr yn hanfodol i'n cynlluniau a'n gwasanaethau hirdymor. Rydym yn gwella ein cadwyn gyflenwi'n barhaus drwy ymgysylltu'n agos â chyflenwyr. Mae Bwrdd TrC yn adolygu ac yn rhoi adborth rheolaidd ar faterion yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi drwy adroddiadau ac asesiadau risg. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg hefyd yn cael diweddariadau a gall herio penderfyniadau caffael.

Gwneud penderfyniadau cynaliadwy

Mae ein Bwrdd yn cydnabod effaith hirdymor ei benderfyniadau ar genedlaethau'r dyfodol, gan gynnwys y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, yr amgylchedd, yr economi ac iechyd y cyhoedd. Mae gennym gyfrifoldeb cyfreithiol i gysoni ein gweithredoedd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, y pum ffordd o weithio at ddatblygu cynaliadwy, a Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol Cymru.

Ein nod yw ystyried canlyniadau ein penderfyniadau'n gynnar, gan fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau negyddol yn brydlon er mwyn gwneud dewisiadau gwell. Mae ein Bwrdd wedi ymrwymo i leihau ein cyfraniad at newid yn yr hinsawdd, gwella bioamrywiaeth, ac arwain ymdrechion i ddatgarboneiddio a theithio cynaliadwy.

Symud ymlaen

Yn ystod y flwyddyn nesaf, mae ein Bwrdd wedi ymrwymo i ddatblygu ein gwaith presennol ymhellach i wella'r ffordd maent yn gwneud penderfyniadau ac i roi sylw dyledus i'r materion o dan a172 Ddeddf Cwmnïau 2006.



Pwyllgorau'r Bwrdd

Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn goruchwyllo system rheoli risg a rheolaeth fewnol TrC, ei adroddiadau ariannol ac anariannol, a'r Gymraeg yn TrC a'r tu allan iddo.

Y Pwyllgor Cwsmeriaid a Chyfathrebu

Mae'r Pwyllgor Cwsmeriaid a Chyfathrebu yn goruchwyllo strategaeth cwsmeriaid TrC a'i gynlluniau cyflawni. Mae'r pwyllgor yn adolygu metrigau perfformiad gweithredol anariannol (fel prydlondeb) ynghyd ag adborth gan gwsmeriaid a rhanddeiliaid. Mae'r pwyllgor yn sicrhau bod ein cwsmeriaid yn ganolog i bopeth a wnawn a bod cynllun clir ar waith i gyflawni'r gwasanaeth a'r trawsnewid y mae ein cwsmeriaid yn ei ddisgwyl.

Iechyd, Diogelwch a Llesiant a Chynaliadwyedd

Mae'r Pwyllgor hwn yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod ei fuddiannau a'i atebolrwydd o ran iechyd, diogelwch, llesiant cynaliadwyedd, addasu i'r hinsawdd, cadernid, diogelwch a pharhad busnes yn cael eu rheoli'n briodol. Mae'n sicrhau bod mesurau cadarn ar waith mewn perthynas â gweithgareddau'r cwmni gan eu bod yn effeithio ar y cyhoedd (gan gynnwys cwsmeriaid), gweithwyr uniongyrchol ac anuniongyrchol, contractwyr a chyflenwyr. Mae'n adolygu amrywiaeth o ddangosyddion perfformiad allweddol. Mae'n gwneud argymhellion, yn herio ac yn atgyfnerthu gweithgareddau cadarnhaol i hyrwyddo gwelliant parhaus ac yn rhannu arferion gorau ar draws buddiannau'r cwmni.

Y Pwyllgor Prosiectau Mawr

Mae'r Pwyllgor Prosiectau Mawr yn sicrhau bod y weithrediaeth yn canolbwyntio'n drylwyr ar ddiogelwch, cyflawni, rheolaethau a rheoli risg prosiectau mawr. Mae'r pwyllgor hefyd yn monitro'r llif o brosiectau newydd posibl. Mae'r pwyllgor yn cymryd adroddiadau rheolaidd ar gyflawni prosiectau ar ran Bwrdd TrC. Mae'n monitro ac yn herio mesurau lliniaru risg a'r amgylchedd rheoli a sefydlwyd gan y weithrediaeth.

Y Pwyllgor Pobl a Thaliadau

Mae'r Pwyllgor Pobl yn helpu'r Bwrdd i adolygu Strategaeth Pobl TrC. Mae'n sicrhau bod y Bwrdd a'r Tîm Arwain Gweithredol yn cadw strwythur, maint a chydbywysedd priodol. Mae'n adolygu cynlluniau datblygu blynyddol timau arwain. Mae'r pwyllgor yn monitro metrigau a dangosfyrddau allweddol i gefnogi'r gwaith o asesu perfformiad presennol a nodau TrC ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys goruchwyllo'r rhaglen amrywiaeth a chynhwysiant.



HINSAWDD

Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau bod uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar newid yn yr hinsawdd yn cael eu cyflawni, gan gynnwys targedau datgarboneiddio, ymateb i'r argyfwng hinsawdd ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd.

Datganiad Gwybodaeth Anariannol a Chynaliadwyedd

Rydym wedi asesu bod yr hinsawdd yn brif risg i'r sefydliad, yn bennaf oherwydd y risg o darfu yn sgil cynnydd mewn tywydd eithafol. Yn unol â hynny a Deddf Cwmnïau 2006, fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau'r Cwmnïau (Adroddiad Strategol) (Datgeliad Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd) 2022, mae'r adran hon o'n Hadroddiad Strategol yn cynnwys ein datgeliadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, sy'n cyd-fynd ag argymhellion y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd a chanllawiau a ddarparwyd gan Drysorlys Ei Fawrhdyd ym mis Rhagfyr 2024.

Llywodraethu

Y Bwrdd sy'n bennaf gyfrifol am bennu strategaeth y sefydliad, sy'n cynnwys risgiau a chyfleoedd hinsawdd. Bwrdd TrC, y Tîm Arwain Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Risg sy'n rheoli, yn monitro ac yn berchen ar y risgiau strategol. Gellir canfod risgiau a chyfleoedd o amrywiaeth o ffynonellau, er enghraifft drwy asesuadau risg prosiectau neu drwy weithdai ar themâu penodol. Maent yn cael eu cofnodi a'u hasesu yn erbyn ein proffil parodrwydd i dderbyn risg, gan gefnogi gwaith blaenoriaethu a lliniaru. Mae Adroddiadau Risg Strategol yn cael eu cyflwyno i Fwrdd TrC a'r Tîm Arwain Gweithredol bob mis ar gyfer monitro a rheoli parhaus, ac mae Aelod o'r Tîm Arwain Gweithredol yn cael ei neilltuo i berchnogi risg a mesurau lliniaru risgiau strategol.

Mae'r Bwrdd yn goruchwyllo ac yn monitro cynnydd yn erbyn nodau a thargedau yn uniongyrchol a thrwy is-bwyllgorau. Mae ein Pwyllgor Archwilio a Risg yn monitro ein rheolaethau mewnol ar gyfer rheoli risgiau a chyfleoedd newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys risgiau pontio a'r rheini sy'n effeithio ar gyflawni amcanion a amlinellir yn y Cynllun Ymaddasu i'r Hinsawdd a Chydnherthedd a'r rheini a fydd yn cael eu hamlinellu yn ein Strategaeth Ynni a'n Cynllun Rheoli Carbon. Mae hyn yn galluogi Bwrdd TrC i oruchwyllo a chraffu ar benderfyniadau a allai effeithio ar yr archwaeth risg corfforaethol.

Er mwyn cynnal a datblygu arbenigedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, mae'r Tîm Newid yn yr Hinsawdd yn darparu sesiynau briffio ar wyddoniaeth hinsawdd, gofynion rheoliadol a risgiau penodol i'r sector i addysgu uwch arweinwyr a'r sefydliad ehangach. Mae'r tîm yn cefnogi uwch arweinwyr i adolygu metrigau, targedau ac adroddiadau hinsawdd.

Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr [Adroddiad Newid Hinsawdd 2025](#).



Strategaeth

Mae ein [Strategaeth Gorfforaethol](#) yn amlinellu blaenoriaethau ac amcanion allweddol i herio a gwrthdroi ymddygiad hirsefydlog trafnidiaeth drwy newid canfyddiadau o drafnidiaeth gyhoeddus a galluogi newid dulliau teithio.

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw nodi a rheoli risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor ein gweithrediadau. Rydym wedi datblygu [Cynllun Ymaddasu i'r Hinsawdd a Chydnerthedd \(CARP\)](#).

Ym mis Hydref 2023, cyfarfu aelodau o CCAWG Diwydiant Rheilffyrdd y DU i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer map a ddatblygwyd drwy'r prosiect Asesu Aeddfedrwydd 'Capasiti Ymaddasol' Newid yn yr Hinsawdd. Mae CCAWG y Diwydiant Rheilffyrdd wedi dewis Llwybr Crynodiad Cynrychioliadol 6.0 fel y senario cynhesu uchel diofyn. Bydd RCP8.5 yn cael ei ddefnyddio i brofi straen asesiadau a phenderfynu a oes angen mwy o gydnerthedd ar gyfer asedau hirdymor mewn senario cynhesu byd-eang uchel iawn.

Dewiswyd y senarios hyn i: sicrhau cysondeb ar draws y sector rheilffyrdd; ac adlewyrchu dyfodol realistig a'r sefyllfa waethaf bosibl o ran yr hinsawdd, gan gefnogi cynlluniau addasu cadarn.

Ym mis Awst 2024, fe wnaethom gomisiynu Asesiad Llwybrau Addasu Cyflym i asesu'r amrywiaeth o risgiau hinsawdd y gallai ein seilwaith Llinellau Craidd y Cymoedd eu hwynebu, ac i dynnu sylw at lwybrau addasu posibl i liniaru'r risgiau hyn.

Nododd RAPA risgiau allweddol o dan RCP6.0 a RCP8.5, gan gynnwys:

- Mwy o law trwm, gan arwain at lifogydd a thirlithriadau.
- Tymheredd uwch yn yr haf, sy'n cynyddu'r risg y bydd cledrau'n plygu ac y bydd llinellau uwchben yn methu.
- Twf llystyfiant ac ansefydlogrwydd pridd yn effeithio ar argloddiau a hafnau.

Cafodd llwybrau addasu eu blaenoriaethu ar sail difrifoldeb risg, cost-ffeithiolrwydd, a dichonoldeb gweithredu.

Ym mis Ebrill 2025, fe wnaethom gwblhau'r Matrics Aeddfedrwydd Capasiti Ymaddasol i bennu ein lefel aeddfedrwydd addasu bresennol. Ar hyn o bryd rydym yn eistedd ar lefel o 2-3 allan o 5; sy'n awgrymu ein bod yn gryf ym maes llywodraethu a strategaeth ar gyfer gwrthsefyll ac addasu i'r hinsawdd. Mae ein camau nesaf i wella ein lefel aeddfedrwydd a'n capasiti ymaddasol yn cynnwys gwreiddio a gweithredu ein strategaeth ar draws y sefydliad.

Mae canlyniadau'r RAPA a'r asesiad aeddfedrwydd wedi llywio ein gwaith cynllunio strategol yn uniongyrchol:

- Cynllunio Gweithredol: Mae senarios hinsawdd bellach wedi'u gwreiddio mewn cynlluniau rheoli asedau a safonau dylunio.
- Cynllun Buddsoddi: Mae mesurau ymaddasu fel systemau draenio gwell, deunyddiau sy'n gallu gwrthsefyll gwres, a rheoli llystyfiant yn cael eu hymgorffori mewn rhaglenni buddsoddi.
- Datblygu Sefydliadol: Mae rhaglenni hyfforddi ac ymwybyddiaeth yn cael eu datblygu i wreiddio'r gallu i wrthsefyll yr hinsawdd ar draws pob swyddogaeth.

Mae risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a chostau addasu yn cael eu hintegreiddio yn ein prosesau cynllunio ariannol a dyrannu cyfalaf tymor hir. Lle bo'n berthnasol, mae darpariaethau ar gyfer addasu i'r hinsawdd yn cael eu datgelu yn ein datganiadau ariannol, ac mae dadansoddiadau o senarios yn sail i brisio asedau a phrofi amhariad. Bydd penderfyniadau buddsoddi yn y dyfodol yn cael eu hasesu yn erbyn senarios RCP6.0 a RCP8.5 i sicrhau cadernid ariannol o dan amrywiaeth o ganlyniadau hinsawdd.

O ran allyriadau uniongyrchol yn ystod y cyfnod pontio wrth i ni ddatgarboneiddio ein fflyd, mae cynyddu gwasanaethau a theithwyr yn golygu bod ein hallyriadau carbon deuocsid yn debygol o gynyddu.

Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr [Adroddiad Newid Hinsawdd 2025](#).



Effaith Ariannol

Rydym yn gweithio i sefydlu dull cadarn o asesu perthnasedd ariannol risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Er mai megis dechrau mae'r gwaith hwn o hyd, mae'n rhan hanfodol o'n strategaeth hinsawdd hirdymor.

Ar hyn o bryd rydym yn canolbwyntio ar feithrin y capasiti mewnol, y seilwaith data a'r offer dadansoddi sydd ei angen i fesur risgiau ffisegol aciwt (er enghraifft, tarfu ar wasanaethau sy'n gysylltiedig â stormydd) a risgiau cronig (er enghraifft, dirywiad asedau hirdymor oherwydd newid yn yr hinsawdd). Rydym hefyd yn ceisio asesu risgiau pontio, fel newidiadau polisi, anwadalrwydd y gadwyn gyflenwi, a goblygiadau ariannol datgarboneiddio.

Gall tarfu sylweddol ar Linellau Craidd y Cymoedd a achosir gan dywydd eithafol arwain at golli referniw, yn dibynnu ar lefel y tarfu, gyda cholledion nodweddiadol o £100,000 i £500,000 y dydd. Gall yr effaith economaidd-gymdeithasol ar gwsmeriaid a busnesau lleol fod yn llawer mwy.

Ar gyfer Cymru a'r Gororau, mae gan Network Rail fecanwaith ariannol sy'n ein digolledu am amhariadau heb eu cynllunio ar wasanaethau a achosir gan ffactorau y tu hwnt i'n rheolaeth (gan gynnwys stormydd).

Er mwyn cryfhau ein hasesiad perthnasedd ariannol, rydym yn cymryd y camau canlynol:

- Integreiddio senarios risg hinsawdd mewn arfarniadau buddsoddi a chynllunio ariannol.
- Datblygu metrigau mewnol a dangosyddion perfformiad allweddol i olrhain amlygiad ariannol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a chanlyniadau gwydnwch.
- Cydweithio â phartneriaid i wella'r gwaith o rannu data a modelu effeithiau'r hinsawdd.
- Gwreiddio risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn y broses o reoli risgiau masnachol, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'n Matrics Parodrwydd i Dderbyn Risg a'n system Rheolwr Risg Gweithredol (ARM).

Dros amser, bydd y dull hwn yn ein galluogi i ddeall goblygiadau ariannol llawn newid yn yr hinsawdd yn well, cefnogi penderfyniadau mwy gwybodus, a gwella tryloywder.

Rheoli risg

Mae ein risg fwyaf arwyddocaol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a'r risg pwysicaf yn ymwneud â'r tywydd ac mae rhagor o fanylion ar gael yn adran Risg yr Adroddiad Blynyddol hwn ar dudalen 40.

Mae risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn cael eu hintegreiddio i'n fframwaith rheoli risg cyffredinol. Rydym yn nodi, yn asesu ac yn rheoli'r risgiau hyn drwy ddadansoddi senarios, profi straen, a monitro rheolaidd. Rydym wedi mabwysiadu Fframwaith Asesu Risg Newid yn yr Hinsawdd (CCRA) strwythuredig i werthuso a rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn systematig ar draws ein gweithrediadau.

Mae ein tîm Rheoli Risg yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o wreiddio risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd mewn gweithrediadau. Defnyddir y system ARM i gofnodi a monitro unrhyw risgiau a chyfleoedd hinsawdd a nodwyd gan CCRAs. Gall risgiau o'r fath gynnwys effeithiau canlyniadol posibl ar feysydd busnes eraill fel perfformiad ariannol, cynllunio trafndiaeth, asedau, a phrofiad cwsmeriaid. Mae'r tîm rheoli risg yn cyfleu'r risgiau hyn i dimau/adrannau eraill yn ôl yr angen, gan gynnwys neilltuo perchnogion camau gweithredu i fonitro'r risgiau, a rhoi mesurau lliniaru ar waith.

Mae'r risgiau hyn yn cael eu sgorio gan ddefnyddio meini prawf asesu ansoddol a meintiol, fel tebygolrwydd, cost bosibl effeithiau, ac enghreifftiau tebyg o wireddu blaenorol. Gall yr olaf gynnwys effeithiau ariannol, tarfu ar wasanaethau a difrod i asedau o ganlyniad i ddigwyddiadau tywydd eithafol sydd wedi digwydd yn y gorffennol. Mae'r CCRAs yn ystyried difrifoldeb, tebygolrwydd ac amllder canlyniadau posibl, gan lywio sut rydym yn blaenoriaethu'r risgiau uchaf i'w rheoli yn gyntaf. Mae hyn yn arbennig o wir am asedau sy'n hanfodol i ddiogelwch a llwybrau gwasanaethau allweddol ar ein rhwydwaith. Mae tabl cryno o rai o'r risgiau strategol eraill i'r hinsawdd a'n rheolaethau lliniaru cysylltiedig ar gael isod.



Math o Risg	Risg	Effaith	Rheoli Lliniaru
Tymor Byr	Gall digwyddiadau tywydd eithafol (llifogydd, gwres eithafol, rhew, eira) darfu ar seilwaith a allai arwain at oblygiadau gweithredol a chost.	Anallu i TrC gynnal y gwasanaeth a ddarperir a chyflawni gofynion cylch gwaith Llywodraeth Cymru, gyda goblygiadau cost / ariannol o ganlyniad i ddigwyddiadau, difrod i asedau a tharfu ar wasanaeth.	Mesurau lliniaru sy'n addas ar gyfer y dyfodol (ee adeiladu) ac asesiadau amgylcheddol cyn y gwaith. Parhau i gynnal asesiadau risg ar draws y rhwydwaith i sicrhau bod risgiau newid yn yr hinsawdd yn cael eu cofnodi, a bod mesurau lliniaru priodol ar waith ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol. Sefydlu sianeli llywodraethu ar gyfer monitro ein cynnydd er mwyn gwella ein gallu i addasu i ddigwyddiadau tywydd eithafol a achosir gan newid yn yr hinsawdd.
Tymor Byr	Efallai na fydd y targed datgarboneiddio o sero net erbyn 2030 yn cael ei gyrraedd os nad oes modd adnewyddu neu addasu trenau disel.	Gallai hyn gael goblygiadau cyfreithiol, ac i gost ac enw da a golygu nad yw ymrwymïadau'n cael eu cyflawni.	Bydd hyn yn cael ei reoli drwy'r Strategaeth Datgarboneiddio Cerbydau.
Tymor Byr	Methiant i gyflawni targed sero net 2030 oherwydd allyriadau'r gadwyn gyflenwi.	Gallai hyn effeithio ar allu TrC i leihau ei allyriadau corfforaethol a gofynion Cylch Gwaith Llywodraeth Cymru.	Ar y cyd â'r Tîm Caffael a Chyllid, bydd y Tîm Newid Hinsawdd yn cynnal dadansoddiad manwl o allyriadau'r gadwyn gyflenwi er mwyn cael cynrychiolaeth fwy cywir ac ychwanegu hyn i wrthbwysu adroddiadau lefel uwch a chydweithio â Llywodraeth Cymru i ddatblygu dull hybrid o ystyried carbon ar gyfer y gweithgaredd hwn.
Tymor Canolig	Methiant i gyflawni'r targed sero net oherwydd datblygiadau ar asedau tir maes glas.	Gallai ein rhaglen drawsnewid arwain at ddatblygu ein hasedau maes glas, a allai leihau potensial atafaelu'r tir rydym yn berchen arno. Gallai hyn leihau potensial gwrthbwysu ein hasedau tir, gan y gallent ddod yn ffynhonnell net gyffredinol allyriadau, yn hytrach na buddsoddiad. Efallai y bydd yn rhaid i ni wedyn gwneud iawn am hynny.	Gweithio gyda'n timau rheoli tir, peirianeg a phrosiectau i sicrhau diwydrwydd dyladwy wrth ystyried datblygu unrhyw asedau tir TrC. Datblygu strwythur llywodraethu ar gyfer ymgynghori â rhanddeiliaid ar asedau/prynu tir.



Math o Risg	Risg	Effaith	Rheoli Lliniaru
Y Tymor Canolig a'r Tymor Hir	Risgiau i asedau, iechyd a diogelwch, enw da a chostau oherwydd diffyg asesiadau effaith, cynlluniau ymateb priodol a pholisïau sy'n gysylltiedig â thywydd eithafol/gwael.	Difrod posibl a methiant cynamserol asedau. Mwy o darfu ar wasanaethau ac effeithiau ariannol atgyweirio asedau, iawndal am oedi a cholledion eraill.	Cydweithio â thîm perchennog y seilwaith i ddatblygu asesiadau effaith ar gyfer digwyddiadau tywydd eithafol/anffafriol a rhannu'r gwersi a ddysgwyd. Sefydlu gweithgor tywydd eithafol i gydlynu'r gwaith o ddatblygu cynlluniau a pholisïau priodol ar gyfer ymateb i dywydd eithafol. Cyhoeddi canllawiau tywydd eithafol TrC i staff a chwsmeriaid i leihau'r risg o effeithiau sy'n gysylltiedig â'r tywydd ar iechyd, teithiau, asedau a ffyrdd o weithio. Cydlynu'r gwaith o ddatblygu cynlluniau wrth gefn gyda'r tîm rheoli asedau. Mae hyn yn cynnwys gweithredu mesurau diogelu asedau ac adnewyddu seilwaith Llinellau Craidd y Cymoedd.

Metrigau a thargedau

Mae Cynllun Busnes Blynyddol TrC yn cadarnhau ein hymrwymiad i gyflawni'r amcanion sydd wedi'u nodi yn ein Cynllun Ymaddasu i'r Hinsawdd a Chydnerthedd. Mae hyn yn cynnwys cryfhau gwytnwch ein rhwydwaith a'n gwasanaethau a sicrhau bod ystyriaethau hinsawdd yn cael eu gwreiddio ym mhob rhaglen a buddsoddiad mawr.

Er ein bod wedi gwneud cynnydd o ran sefydlu targedau a dangosyddion cychwynnol, rydym yn cydnabod yr angen i ddatblygu cyfres fwy cynhwysfawr o fetrigau meintiol ac ansoddol. Bydd y rhain yn cyd-fynd â natur esblygol risgiau a chyfluoedd hinsawdd ac yn cefnogi adrodd tryloyw.

Ar hyn o bryd rydym yn canolbwyntio ar:

- Mireinio methodolegau ar gyfer asesu effeithiau'r hinsawdd ac effeithiolrwydd addasu.
- Gwellu'r broses o gasglu data i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Datblygu dangosyddion perfformiad allweddol sy'n adlewyrchu risgiau corfforol a phontio, yn ogystal â chanlyniadau gwytnwch.
- Sefydlu arferion monitro a gwerthuso i olrhain cynnydd yn erbyn llinellau sylfaen a llywio buddsoddiad yn y dyfodol.

Un o'r pethau allweddol i'w cyflawni yn y maes hwn yw datblygu ein Cynllun Gwytnwch Tywydd ac Ymaddasu i Newid yn yr Hinsawdd, a fydd yn darparu dull strwythuredig o olrhain perfformiad ac yn cyd-fynd â safonau datgelu hinsawdd cenedlaethol a rhyngwladol. Cafodd ein Cynllun Rheoli Llystyfiant ei gyhoeddi yn hydref 2024.



	Math o Risg	Ymrwymiad	Ein hamcanion, ein targedau a'n dangosyddion perfformiad allweddol
Targedau ac ymrwymadau Llywodraeth Cymru	Tymor Byr	Erbyn 2030, bydd dewis di-garbon yn arferol, wedi'i wreiddio'n ddiwylliannol ac yn cael ei hunanreoleiddio ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.	100% o ynni adnewyddadwy ar allyriadau Cwmpas 1 Llinellau Craidd y Cymoedd (tyniant) Llinellau Craidd y Cymoedd: sicrhau gostyngiadau sylweddol yn allyriadau Cwmpas 1 erbyn 2024, gan ganolbwyntio ar gyrraedd gostyngiad o 100%.
	Tymor canolig	Cynyddu cyfran y teithio sy'n cael ei wneud ar drafnidiaeth gyhoeddus o amcangyfrif presennol o 5% i 7% erbyn 2030 a 13% erbyn 2040.	Yn ein Cynllun Datblygu Cynaliadwy 2022-27, rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo teithio cynaliadwy a lleihau'r angen i ddefnyddio ceir preifat. Amlinellir yr amcanion llawn i'n cefnogi i gyflawni'r nod hwn yn y cynllun hwn.
Targedau'r diwydiant	Tymor canolig	Rhoi'r gorau i ddefnyddio trenau disel yn unig erbyn 2040.	Allyriadau Cwmpas 1 (tyniant) Llinellau Craidd y Cymoedd: gwneud gostyngiadau sylweddol yn allyriadau Cwmpas 1 erbyn 2024, gan ganolbwyntio ar gyrraedd gostyngiad o 100%.

Rydym yn mesur allyriadau Cwmpas 1, 2 a 3 yn unol â'n gofynion adrodd ac rydym yn adrodd ar y rhain o bryd i'w gilydd i'n Grŵp Llywio Cyflawni Rheilffyrdd ac yn flynyddol i Lywodraeth Cymru.

Targedau Carbon

Yn 2019, fe wnaethom gyhoeddi ein Strategaeth Effaith Carbon Isel, yn cynnwys y targedau canlynol ar gyfer ein hallyriadau carbon, ond roeddem wedi cael ein dal yn ôl rhag cyrraedd y targedau hyn oherwydd COVID19.

Eleni byddwn yn cyhoeddi targedau newydd yn ein Cynllun Rheoli Carbon. Mae ein cynnydd yn erbyn y targedau presennol i'w weld isod.

Scope	Target	Status
Cwmpas 1 (tyniant Llinellau Craidd y Cymoedd)	Gostyngiad o 100% erbyn diwedd 2023.	Ar waith - oedi wrth gyflawni'r Metro oherwydd effeithiau pandemig y coronafeirws.
Cwmpas 1 (tyniant Cymru a'r Gororau)	Gostyngiad o 30% erbyn diwedd 2023.	Ar waith - mae 70% o'r holl wasanaethau bellach yn cael eu gweithredu ar drenau newydd.
Cwmpas 2	Gostyngiad o 100% erbyn diwedd 2023.	Cyflawnwyd hyn drwy gontract trydan adnewyddadwy 100% yn 2023/24, a chafodd 100% o'n hynni adnewyddadwy ei gynhyrchu yng Nghymru

Mae ein hallyriadau Cwmpas 1, 2 a 3 ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 wedi gostwng 7%. Roedd 34% o'n hallyriadau o Gwmpas 1, cwmpas 1 yn llai nag 1% a 64% o Gwmpas 3. Rydym yn mesur ein newid blynyddol o un flwyddyn i'r llall mewn allyriadau carbon yn ein hadroddiad carbon blynyddol yn erbyn llinellau sylfaen 2020/21. Mae ein hallyriadau carbon gweithredol wedi cynyddu 25% yn erbyn y llinell sylfaen hon. Mae'r cynnydd yn ein hallyriadau gweithredol yn ystod y pum mlynedd diwethaf yn deillio o'r cynnydd yn y gwasanaethau a ddarperir gennym a'r gwariant cynyddol ar drawsnewid gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru. Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr [Adroddiad Newid Hinsawdd 2025](#).



DATGANIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu TrC, rwy'n bersonol gyfrifol am reolaeth a llywodraethu cyffredinol grŵp cwmnïau TrC gan gynnwys ei bedwar is-gwmni (Rheilffyrdd TrC, Gwasanaethau Arloesi TrC, Ffeibr TrC a Pullman Rail).

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n atebol i Fwrdd TrC ac Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru. Mae'r Datganiad Llywodraethu yn amlinellu sut rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldeb i reoli adnoddau Trafnidiaeth Cymru eleni.

Mae TrC wedi ymrwymo i'r safonau uchaf o ran llywodraethu, atebolrwydd a thryloywder. Mae'r gwerthoedd hyn yn hollbwysig i lwyddiant pob agwedd ar grŵp TrC.

Mae TrC yn cael ei lywodraethu gan y canlynol:

- Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros y cwmni.
- cyfrifoldeb Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru (i Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth) ac yn uniongyrchol i Senedd Cymru, fel Prif Swyddog Cyfrifyddu dros wariant a rheolaeth TrC.
- fy nghyfrifoldeb fel Swyddog Cyfrifyddu TrC.
- Bwrdd TrC, a gefnogir gan ei is-bwyllgorau, a Thîm Arwain Gweithredol, sydd â chyfrifoldeb ar y cyd dros oruchwylio gwaith y cwmni, yn ogystal â goruchwylio, craffu a chynnig sicrwydd i wneud yn siŵr bod TrC yn cyflawni ei nodau a'i amcanion gyda lefel priodol o reolaeth fewnol.
- byrddau is-gwmnïau TrC: Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru, Gwasanaethau Arloesi Trafnidiaeth Cymru, Ffeibr TrC, a Pullman Rail Ltd.

Mae ein fframwaith llywodraethu yn seiliedig ar ein Herthyglau Cymdeithasu a Chytundeb Rheoli rhwng TrC a gweinidogion Cymru. Ar gyfer TrC, mae llywodraethu corfforaethol da yn golygu sicrhau bod grŵp cwmnïau TrC yn cyd-fynd ag amcanion gweinidogion Cymru fel y nodir yn y ddwy ddogfen hyn, ein Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol, Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru Llywodraeth Cymru a'n hamserlen ar gyfer dirprwyo. Gan nad yw TrC yn gwmni rhestredig, nid oes yn rhaid i ni gydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd wedi penderfynu y bydd y cwmni'n cydymffurfio'n wirfoddol ag Egwyddorion Llywodraethu Corfforaethol Wates.



Bwrdd TrC

Mae Bwrdd TrC yn goruchwyllo ein holl weithgareddau gan ddarparu arweinyddiaeth a gweledigaeth strategol. Mae'n sicrhau bod safonau uchel o ran llywodraethu corfforaethol a ffyrdd o weithio yn cael eu cynnal. Mae'n gweithredu ar y cyd gan ganolbwyntio ar:

- sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i oruchwyllo a llywodraethu holl weithgareddau'r cwmni, gan gynnwys stiwardiaeth dros yr arian cyhoeddus sy'n cael ei roi iddynt.
- materion strategol a sylweddol sy'n effeithio ar weithrediadau grŵp cwmnïau Trafnidiaeth Cymru o ran cyflawni ei gyloch gwaith.
- rhoi strategaeth y Bwrdd ar waith. Mae'n llywio, yn herio ac yn craffu ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd perfformiad TrC, gyda'r bwriad o sicrhau ei ddyfodol a'r weledigaeth o greu rhwydwaith trafnidiaeth y mae Cymru'n falch ohono.

Gall y Bwrdd ddirprwyo'r cyfrifoldeb dros weinyddu materion rheoli o ddydd i ddydd i'r Tîm Arwain Gweithredol ond nhw sy'n parhau i fod yn gyfrifol ac yn atebol am bob mater yn y pen draw. Mae ein Cyfarwyddwyr Anweithredol a'n Cyfarwyddwr Anweithredol Cysylltiol yn craffu ar berfformiad y tîm gweithredol wrth gyflawni amcanion y cytunwyd arnynt. Mae aelodau o Dîm Gweithredol TrC yn mynychu cyfarfodydd Bwrdd TrC yn rheolaidd i gyflwyno papurau gydag argymhellion ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf.

Mae arsylwr o'r undebau llafur, arsylwr Llywodraeth Cymru a chynrychiolydd o'r sector llywodraeth leol yn ymuno â'r Bwrdd ar gyfer rhan o'r sesiwn strategol. Nid yw'r arsylwyr yn aelodau llawn o'r Bwrdd ac nid oes ganddynt hawl i bleidleisio ond maen nhw'n gallu cymryd rhan mewn trafodaethau. Nid yw arsylwyr yn gyfarwyddwyr cwmni fel y'u cofnodwyd ar Dŷ'r Cwmnïau.

Mae ein Cyfarwyddwyr wedi arwyddo Datganiad Gwrthdaro Rhwng Buddiannau ac maent yn diweddarau datganiadau buddiannau'n chwarterol. Mae'r buddiannau a ddatganwyd ar gael ar wefan TrC. Mae datganiadau buddiannau fel y maent yn berthnasol i eitemau agenda penodol hefyd yn cael eu gwneud ar ddechrau pob cyfarfod.

Disgwylir i bob cyfarwyddwr ymddwyn yn unol â saith egwyddor bywyd cyhoeddus ac mae pob un wedi llofnodi telerau Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol TrC sy'n cynnwys Cod Ymddygiad Swyddfa'r Cabinet ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus.

Eleni, cyfarfu ein Bwrdd un ar ddeg o weithiau. Mae cofnodion pob cyfarfod Bwrdd yn cael eu **cyhoeddi**.

Presenoldeb y Cyfarwyddwyr yng nghyfarfodydd Bwrdd TrC ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025.

Alun Bowen	11/11
Louise Cheeseman (penodwyd ym mis Tachwedd 2024)	6/7
Heather Clash	11/11
Vernon Everitt	10/11
Sarah Howells (ymddiswyddodd ym mis Hydref 2024)	6/6
Nicola Kemmery (ymddiswyddodd ym mis Gorffennaf 2024)	6/6
Rhian Langham (penodwyd ym mis Medi 2024)	6/7
Alison Noon-Jones (ymddiswyddodd ym mis Hydref 2024)	5/6
Vinay Parmar (penodwyd ym mis Medi 2024)	6/7
James Price	11/11
Scott Waddington	11/11



Mae ein Bwrdd yn cyfuno gwybodaeth a sgiliau chwe aelod anweithredol, un aelod anweithredol cyswllt (ddim yn aelod llawn o'r Bwrdd) a dau aelod gweithredol annibynnol i roi gwybodaeth a phrofiad er mwyn helpu i siapia ein cyfeiriad strategol. Mae bywgraffiadau llawn holl aelodau'r Bwrdd ar gael [yma](#). Mae ein cyfarwyddwyr anweithredol yn dod ag amrywiaeth eang o sgiliau a phrofiad i'r Bwrdd ac mae pob un yn weithwyr proffesiynol arweiniol yn eu meysydd eu hunain. Maent yn rhoi barn annibynnol ar faterion strategaeth, perfformiad a risg. Maent mewn sefyllfa dda i herio a chraffu'n adeiladol ar berfformiad y rheolwyr.

Pwyllgorau'r Bwrdd

Mae ein Bwrdd wedi dirprwyo pwerau penodol i bump is-bwyllgor, sy'n gweithredu i'w helpu i gwblhau ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau cyffredinol:

- Mae'r is-bwyllgor Archwilio a Risg yn cynnig sicrwydd i'r Bwrdd ynglŷn â rheoli risg, rheolaeth fewnol ac adroddiadau ariannol.
- Mae'r is-bwyllgor Cwsmeriaid a Chyfathrebu yn cynorthwyo'r Bwrdd i adolygu, monitro a rhoi cyfarwyddyd ar bynciau sy'n ymwneud â chwsmeriaid.
- Mae'r is-bwyllgor Iechyd, Diogelwch a Llesiant yn helpu'r Bwrdd i argymhell polisi iechyd a diogelwch, monitro ac asesu cydymffurfiaid, datblygu a sicrhau gwelliant parhaus ac adolygu ac ymchwilio i ddigwyddiadau iechyd a diogelwch.
- Mae'r is-bwyllgor Prosiectau Mawr yn helpu'r Bwrdd i adolygu a chraffu ar brosiectau mawr ac argymhell penderfyniadau sy'n gysylltiedig â'r prosiectau mawr ym mhorthffolio TrC. Mae'r Pwyllgor yn canolbwyntio'n bennaf ar brosiectau a rhaglenni sy'n gysylltiedig â datblygu a chyflawni rhaglen buddsoddi TrC mewn seilwaith cyfalaf.
- Mae'r is-bwyllgor Pobl, Taliadau ac Enwebiadau yn cynorthwyo'r Bwrdd gyda phob mater sy'n ymwneud â strwythur y sefydliad, cydymffurfio â pholisi, fframweithiau cyflog a pholisi, hyfforddi a datblygu, egwyddorion a pharamedrau'r polisi tâl, gweinyddu'r cynllun buddion ac enwebiadau'r Bwrdd.

Mae pob pwyllgor yn cael ei gadeirio gan gyfarwyddwr anweithredol, ac maent yn cwrdd bob chwarter o leiaf. Mae gan bob is-bwyllgor awdurdod dirprwyedig gan y Bwrdd i gyflawni'r dyletswyddau sydd wedi'u nodi yn ei gylch gorchwyl. Mae Cadeirydd pob is-bwyllgor yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am weithgareddau'r is-bwyllgor yn y mis diwethaf, ac yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd ar ran yr is-bwyllgor i'w cymeradwyo (pan fo hynny'n briodol).

Fframwaith llywodraethu

Mae ein Bwrdd yn atebol i weinidogion Cymru, sef yr unig aelod o'r cwmni. Mae gweinidogion Cymru yn gyfrifol am bolisi strategol sy'n gysylltiedig â'r holl faterion trafnidiaeth datganoledig. Ar gyfer 2024/25, fe wnaeth y Prif Weinidog ddyrannu'r prif gyfrifoldeb dros oruchwylio TrC i Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru.

Mae'r berthynas rhwng TrC a Llywodraeth Cymru o ran rheoli arian a llywodraethu corfforaethol wedi'i amlinellu yn y Cytundeb Rheoli. Mae'r ddogfen hon yn nodi telerau'r cytundeb rhwng TrC a Llywodraeth Cymru er mwyn cefnogi gysylltiadau adeiladol a chliir rhyngddynt.

Y Tîm Arwain Gweithredol

Mae ein Tîm Arwain Gweithredol yn cynnwys y Prif Swyddog Gweithredol (fi) a deg aelod arall sy'n canolbwyntio ar reolaeth TrC o ddydd i ddydd. Mae'r Tîm Arwain Gweithredol yn cwrdd bob wythnos i drafod a gwneud penderfyniadau ar faterion gweithredol a strategol. Mae'r tîm yn gyfrifol am gyllid, iechyd a diogelwch, pobl, rheoli risg, llywodraethu a pherfformiad a chynnydd prosiectau a rhaglenni.



Bwrdd Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf

Mae Bwrdd Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf yn gyfrifol am yr holl rwymedigaethau sydd wedi'u nodi yn y Cytundeb Grant Gweithredwr Dewis Olaf sy'n ymwneud â masnachfaint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau. Fel Swyddog Cyfrifyddu TrC, rwy'n cadeirio'r Bwrdd sy'n fy ngalluogi i ddal i gyfrif Prif Swyddog Gweithredu TrC sydd â chyfrifoldeb gweithredol dros faterion gweithredol Rheilffyrdd TrC Cyf. Yn ei dro, mae Bwrdd TrC yn fy nal i gyfrif am berfformiad Rheilffyrdd TrC Cyf. Mae aelodau eraill Bwrdd TrC yn cynnwys y Prif Swyddog Cyllid, Llywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol, y Prif Swyddog Masnachol, y Prif Swyddog Gweithredol, y Cyfarwyddwr Prosiectau Strategol, un Cyfarwyddwr Anweithredol annibynnol, a Chyfarwyddwr Anweithredol Cyswllt sy'n arbenigo mewn cyllid.

Bwrdd Gwasanaethau Arloesi TrC Cyf

Mae Bwrdd Gwasanaethau Arloesi Trafnidiaeth Cymru Cyf yn goruchwyllo'r fenter ar y cyd rhwng TrC a Keolis Amey. Mae'r Bwrdd yn goruchwyllo cylch gwaith y cwmni gan gefnogi'r gwaith o ddarparu system drafnidiaeth integredig ar gyfer Cymru a'r Gororau.

Mae'r Bwrdd yn cael ei gadeirio gan Brif Swyddog Cynllunio a Datblygu Trafnidiaeth TrC ac mae'n cynnwys tri Chyfarwyddwr Gweithredol arall TrC, cyfarwyddwr o Amey a chyfarwyddwr o Keolis.

TfW Fibre Ltd

Sefydlwyd Ffeibr TrC ddechrau 2024 i wneud defnydd masnachol o'r capasiti ffeibr dros ben a osodwyd yn bennaf i gludo ein signalau gweithredol a'r cyfathrebu sydd ei angen i redeg y rheilffordd. Cafodd y ffeibr ei osod yn ystod y gwaith o uwchraddio a moderneiddio Llinellau Craidd y Cymoedd. Gellir defnyddio'r capasiti dros ben hwn yn awr i gefnogi gwasanaethau cyfathrebu yn yr ardal.

Mae'r Bwrdd yn cael ei gadeirio gan gyfarwyddwr anweithredol ac mae hefyd yn cynnwys cyfarwyddwr anweithredol ychwanegol, fi, ein Prif Swyddog Cyllid, Llywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol, a'r Prif Swyddog Masnachol.

Pullman Rail Ltd

Mae Pullman Rail yn gweithredu fel cwmni annibynnol sy'n darparu gwasanaethau o dan ei frand ei hun. Gan weithredu o'i depo yn Nhreganna, Caerdydd, mae Pullman Rail yn darparu arbenigedd technegol ar y rheilffyrdd; uwchraddio cerbydau arbenigol; atgyweirio, adnewyddu a chynnal a chadw pob cerbyd rheilffordd sy'n cludo teithwyr neu nwyddau; ac atebion peirianyddol rheilffyrdd.

Caiiff y Bwrdd ei gadeirio gan gyfarwyddwr anweithredol TrC ac mae hefyd yn cynnwys dau Gyfarwyddwr Gweithredol TrC arall, uwch reolwr o TrC a Rheolwr Cyffredinol Pullman.

Mae Bwrdd TrC yn cael diweddariadau ar ôl cyfarfod pob un o'i is-bwyllgorau cwmni.

Fframwaith rheolaeth fewnol

Mae pob corff sy'n cael ei ariannu gan arian cyhoeddus yng Nghymru yn gaeth i reolaethau mewnol ac allanol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â fframweithiau Llywodraeth Cymru, fel Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Drwy waith y Pwyllgor Archwilio a Risg, mae TrC wedi rhoi trefniadau rheoli mewnol ar waith i roi sicrwydd i'r Bwrdd bod arian ac adnoddau cyhoeddus yn cael eu defnyddio'n briodol ac yn effeithlon. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn monitro ac yn gwerthuso effeithiolrwydd systemau rheolaeth fewnol gyda sicrwydd a gafwyd gan ddefnyddio'r model "tair llinell amddiffyn".

Mae ein hamserlen dirprwyo'n nodi gyda phwy mae'r awdurdod yn y cwmni ar gyfer mathau penodol o benderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn enw neu ar ran TrC, a lle mae'r Bwrdd wedi dirprwyo unrhyw benderfyniadau o'r fath i'r Weithrediaeth neu un o is-bwyllgorau'r Bwrdd. Mae'r Amserlen yn nodi pa faterion sydd wedi eu cadw ar gyfer y Bwrdd yn unig, ac mae'n cynnwys awdurdodau gwario a gwneud penderfyniadau corfforaethol. Mae'r Bwrdd yn adolygu'r rhestr ddirprwyo ddwywaith y flwyddyn.



Yn ystod 2025/26, fe wnaethom barhau i wreiddio a gwneud rhagor o gynnydd o ran datblygu a gweithredu ein hamgylchedd rheolaethau mewnol. Fe wnaethom gynnal adolygiad o reolaethau ar draws TrC i ddeall lefel y cynnydd a'r flaenoriaeth yn ystod 2025/26. Mae hyn yn parhau i helpu i ddiogelu ac amddiffyn ein hasedau, sicrhau cywirdeb ein datganiadau ariannol, glynu wrth bolisiau, rheoliadau, cyfreithiau a hyrwyddo arbedion effeithlonrwydd yn ein prosesau.

Llywodraethu a rheoli ariannol

Mae cynlluniau busnes TrC yn dibynnu ar y gyllideb sy'n cael ei gosod gan Lywodraeth Cymru a nodir yn y llythyr ariannu blynyddol a'r llythyr cylch gwaith bob pum mlynedd. Mae'r canlyniadau'n cael eu cymharu â'r rhagolygon ac yn cael eu hadolygu bob mis i wneud yn siŵr bod gwariant yn cael ei reoli'n unol â chyllidebau sydd wedi'u cymeradwyo ac er mwyn rhoi sicrwydd a chngor i'r Bwrdd.

Gwrth-dwyll, gwrth-lwgrwobrwy a chwythu'r chwiban

Nid yw TrC yn goddef unrhyw fath o ymddygiad sy'n ymwneud â thwyll, llwgrwobrwy na llygredd. Yn ystod 2024/25, fe wnaethom adolygu ein polisi gwrth-dwyll a'n gweithdrefnau cysylltiedig mewn ymateb i Ddeddf Troseddau Economaidd a Thryloywder (2023), gan ganolbwyntio mwy fyth ar atal twyll. Mae'r ddeddfwriaeth newydd hefyd wedi arwain at adolygu a diweddarau ein strategaeth Atal Twyll.

Ymchwilir yn llawn i unrhyw achosion a amheuir o dwyll, llwgrwobrwy neu lygredd. Cymerir camau disgyblu a/neu gyfreithiol lle bo'n briodol yn unol â'n polisi. Yn 2024/25, fe wnaethom ymchwilio i nifer o achosion o dwyll, llygredd neu lwgrwobrwy y rhoddwyd gwybod amdanynt yn TrC, a rhoddwyd gwybod i'r awdurdodau am ddau ohonynt.

Rhaid rhoi gwybod yn ddi-oed i'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol am unrhyw amheuaeth o weithgareddau gwyngalchu arian. Ni wnaed unrhyw adroddiadau yn 2024/25.

Mae'n ofynnol i holl weithwyr newydd TrC ddilyn proses gynefino Llywodraethu Corfforaethol sy'n cynnwys modiwlau ar atal twyll, gwrthdaro rhwng buddiannau, rhoddion a lletygarwch, chwythu'r chwiban ac atal gwyngalchu arian.

Mae ein gweithdrefnau chwythu'r chwiban wedi eu cynllunio i sicrhau diwylliant o hyder ac amgylchedd diogel pe bai rhywun yn mynegi unrhyw bryder yn TrC. Codwyd nifer o bryderon drwy ein trefn chwythu'r chwiban yn ystod y flwyddyn, ac ymchwiliwyd i'r rhain.

Agored a thryloyw

Rydym wedi ymrwymo i fod yn agored a thryloyw yn y ffordd y mae TrC yn gweithredu fel busnes, ac rydym wedi mabwysiadu'r Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol sydd wedi'i lunio a'i gymeradwyo gan y Comisiynydd Gwybodaeth. Mae'r Cynllun yn ymrwymo TrC i wneud gwybodaeth benodol ar gael i'r cyhoedd fel mater o drefn.

Yn ystod 2024/25, cafodd TrC 374 cais am wybodaeth, ac fe gafodd y terfynau amser statudol eu cyrraedd ar gyfer 99% o'r ceisiadau hyn.

Rheoli Risg

Mae ein Bwrdd yn gyfrifol am reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithrediadau TrC. Rydym yn cynnal asesiadau rheolaidd o'r risgiau rydym yn eu hwynebu. Mae'r prif risgiau'n cael eu cofnodi yn y Gofrestr Risgiau Strategol ac mae'r Bwrdd yn adolygu'r gofrestr hon ym mhob cyfarfod. Mae'r Uwch Dîm Gweithredol yn ystyried y Gofrestr Risgiau Strategol a'r Gofrestr Risgiau Gweithredol yn ei gyfarfodydd.

Mae ein cofrestr risgiau'n nodi'r risgiau posibl ac yn eu blaenoriaethu yn ôl eu heffaith a'r tebygolrwydd y bydd y risg yn digwydd. Mae camau lliniaru'n cael eu cyflwyno ochr yn ochr â phob risg er mwyn rheoli a lleihau'r risgiau a nodwyd. Yn ystod y flwyddyn, adolygodd y Tîm Arwain Gweithredol ein prosesau rheoli risg yn ffurfiol a gwneud newidiadau iddynt.



Sicrwydd

Mae prif ffynhonnell sicrwydd TrC yn dod o nodi a yw ei amcanion yn cael eu cyflawni a'r risgiau'n cael eu rheoli'n dda. Yn ogystal â threfniadau archwilio mewnol TrC, rydym hefyd yn cael sicrwydd drwy adroddiadau misol i'r Bwrdd, is-bwyllgorau'r Bwrdd, y tîm arwain gweithredol, cofrestrau risgiau a gwybodaeth reoli arall. Rydym hefyd wedi darparu adroddiadau i Lywodraeth Cymru yng nghyfarfodydd y Bwrdd Llywio.

Yn ystod 2024/25, mae gweithgareddau archwilio mewnol wedi parhau ar draws Grŵp TrC. Mae'r tîm archwilio wedi cael ei gryfhau wrth i ni barhau i wella ein ffyrdd o weithio i gynnwys meysydd busnes a risg newydd. Mae hyn wedi galluogi'r tîm i gefnogi'r busnes ymhellach gydag argymhellion ar gyfer gwelliant parhaus.

Mae'r cynllun archwilio a gymeradwywyd ym mis Mawrth 2024 wedi cael ei gyflawni yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys adolygiadau ym meysydd gwerthiant ar drenau, rheoli gorsafoedd gan staff asiantaeth, hyfforddiant diogelwch i staff gweithredol, Adnoddau Dynol a dangosyddion perfformiad allweddol cyffredinol, adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, cyflogres, prynu i dalu, bancio prosiectau, diogelu data, caffael, datgarboneiddio, rhaglenni cerbydau trydan a bysiau, grantiau, rheoli stoc, yswiriant, parhad busnes, rheoli risg a llywodraethu Llinellau Craidd y Cymoedd.

Cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio a Risg y cynllun archwilio mewnol ar gyfer 2025/26 ym mis Mawrth 2025 gyda rhaglen sy'n seiliedig ar risgiau sy'n cwmpasu holl endidau'r busnes ac amrywiaeth o feysydd ariannol ac anariannol.

Rwyf yn fodlon nad oedd unrhyw wendidau sylweddol yn fframwaith llywodraethu TrC na'n systemau rheoli mewnol ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25. Roedd fframwaith llywodraethu a systemau rheolaeth fewnol TrC yn cefnogi'r broses o gyflawni polisiau, nodau ac amcanion TrC, yn hwyluso arfer swyddogaethau'r Cwmni'n effeithiol ac yn diogelu arian ac asedau cyhoeddus yr wyf i, fel y Swyddog Cyfrifyddu, yn bersonol gyfrifol amdanynt.

James Price

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu



ADRODDIAD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A RISG

Cadeirydd – Alun Bowen

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn goruchwyllo system rheoli risg TrC, ei reolaeth fewnol, adroddiadau ariannol ac anariannol a'i gyfrifoldebau o ran y Gymraeg yn TrC a'r tu allan iddo.



Uchafbwyntiau 2024/25

Cyhoeddodd y Pwyllgor Archwilio a Risg ei ail Bolisi Archwilio a Sicrwydd ym mis Chwefror, sy'n nodi rhai o gynlluniau'r Pwyllgor Archwilio a Risg ar gyfer y tair blynedd sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2028, ac mae ar gael [yma](#). Y llynedd, cyhoeddodd y Pwyllgor Archwilio a Risg ei Adroddiad Gweithredu Blyneddol cyntaf sy'n nodi'r newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r Polisi Archwilio a Sicrwydd a sut mae'r gweithgarwch sicrwydd a nodir yn y Polisi Archwilio a Sicrwydd yn gweithio'n ymarferol. Mae'r trydydd Adroddiad Gweithredu Blyneddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 ar gael yma ac mae'n nodi'r cynnydd ar nifer o feysydd yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:

- y cynnydd parhaus sy'n cael ei wneud o ran gwella rheolaethau mewnol dros adroddiadau ariannol ac anariannol
- parhau i ddatblygu mesurau atal twyll
- sylwebaeth y pwyllgor ar sut mae'n credu bod y gweithgarwch sicrwydd yn TrC yn gweithio'n ymarferol.

Yn ystod y flwyddyn, mae llawer o waith wedi cael ei wneud i wella amddiffynfeydd TrC rhag ymosodiadau seiberddiogelwch a'r cynlluniau adfer os bydd ymosodiad. Bydd hyn yn ffocws cyson yn y dyfodol.

Un o brif gyfrifoldebau'r Pwyllgor yw sicrhau bod gwybodaeth ariannol ac anariannol TrC a chynnwys yr adroddiad blyneddol hwn yn deg, yn gytbwys, ac yn ddealladwy. Mae'r Pwyllgor hefyd yn herio tybiaethau ac amcangyfrifon y tîm rheoli wrth baratoi'r datganiadau ariannol ac wrth baratoi'r wybodaeth anariannol sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad hwn. Fel mewn blyneddau blaenorol, y mater mwyaf perthnasol yn y datganiadau ariannol yw prisio asedau seilwaith TrC.

Blaenoriaethau 2025/26

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi ymrwymo yn ystod y deuddeg mis nesaf i sicrhau bod yr agweddau canlynol ar y materion y mae'n eu goruchwyllo yn cael eu cwblhau neu eu datblygu'n foddhaol:

- y gwaith i wella rheolaethau mewnol dros adroddiadau ariannol ac anariannol
- Gwytnwch, cynlluniau adfer ac amddiffynfeydd seiberddiogelwch TrC.



ADRODDIAD TALIADAU

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion am dâl aelodau'r Bwrdd.
Mae'n cynnwys cyflogau a hawliau pensiwn.

Cyfanswm tâl unigol

	Cylog 2024/25 £000	Cylog 2023/24 £000	Buddion pensiwn 2024/25 £000	Buddion pensiwn 2023/24 £000	Cyfanswm 2024/25 £000	Cyfanswm 2023/24 £00
James Price Prif Swyddog Gweithredol	240-245	230-235	-	-	240-245	230-235
Heather Clash Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	165-170	145-150	10-15	10-15	175-180	160-165
Scott Waddington Cyfarwyddwr Anweithredol - Cadeirydd	35-40	35-40	-	-	35-40	35-40
Alun Bowen Cyfarwyddwr Anweithredol	20-25	20-25	-	-	20-25	20-25
Vernon Everitt Cyfarwyddwr Anweithredol	20-25	20-25	-	-	20-25	20-25
Nicola Kemmery (hyd at 07/07/2024) Cyfarwyddwr Anweithredol	5-10	20-25	-	-	5-10	20-25
Sarah Howells (hyd at 17/10/2024) Cyfarwyddwr Anweithredol	15-20	20-25	-	-	15-20	20-25
Alison Noon-Jones (hyd at 17/10/2024) Cyfarwyddwr Anweithredol	15-20	20-25	-	-	15-20	20-25
Vinay Parmar (o 16/09/2024) Cyfarwyddwr Anweithredol	10-15	-	-	-	10-15	-
Rhian Langham (o 16/09/2024) Cyfarwyddwr Anweithredol	10-15	-	-	-	10-15	-
Louise Cheeseman (o 18/11/2024) Cyfarwyddwr Anweithredol	5-10	-	-	-	5-10	-

Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros a goramser. Ni chafodd buddion o fath arall eu talu i Aelodau o'r Bwrdd gan TrC.

Pensiynau

Mae gweithwyr TrC yn aelodau o gynllun pensiwn cyfrannol diffiniedig. Mae'r ffigur buddion pensiwn ar gyfer y cynllun hwn yn cynrychioli cyfraniad y cyflogwr (8% yn ddiodyn). Nid yw cyfarwyddwyr anweithredol yn aelodau o gynllun pensiwn TrC.



Datgeliadau Cyflog Teg

Cyfrifir y Datgeliadau Cyflog Teg canlynol fel sy'n ofynnol gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) y Llywodraeth Trysorlys EF. Mae cyfanswm y tâl a ddefnyddir yn y cyfrifiadau'n cynnwys cyflog ac nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr.

Tâl band y cyfarwyddwr a oedd yn cael y tâl uchaf yn TrC yn ystod y flwyddyn ariannol 2024-25 oedd £240,000-245,000 (yn 2023/24, roedd yn £230,000-235,000). Ni chafodd unrhyw weithiwr dâl a oedd yn fwy na thâl y cyfarwyddwr a oedd yn cael y tâl uchaf.

Mae'r gymhareb tâl rhwng y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf a chyflog a buddion y gweithiwr ar wahanol ganraddau cyflog a buddion cyflogaion y grŵp ar 31 Mawrth wedi'u nodi isod:

	2024/25		2023/24	
	Cyflog a buddion	Cymhareb	Cyflog a buddion	Cymhareb
25ain Canradd	£41,057	5.9 gwaith	£35,193	6.6 gwaith
50fed Canradd (Canolrif)	£54,195	4.5 gwaith	£48,384	4.8 gwaith
75ain Canradd	£68,758	3.5 gwaith	£64,498	3.6 gwaith

Roedd cyflogau sylfaenol blynyddol y grŵp yn amrywio o £21,649 i £240-245,000 (2023/24: £20,319 i £230-235,000).

Y newid cyfartalog ers y flwyddyn ariannol flaenorol mewn perthynas â chyflog a lwfansau ar gyfer holl weithwyr y grŵp yw 7.9% (a gyfrifir drwy rannu cyfanswm y cyflogau blynyddol â nifer y gweithwyr). Mae'r cynnydd canrannol cyfartalog hwn mewn cyflog yn cynnwys llawer o ffactorau o ran y codiadau cyflog blynyddol ar draws TrC. Mae hyn yn cynnwys gwahanol gytundebau cyflog dan wahanol fodolau cyflog. Mae nifer o'r codiadau cyflog yn cynnwys taliadau cynhyrchiant ar gyfer cydweithwyr rheng flaen i ganiatáu ar gyfer newidiadau i delerau ac amodau. Mae'r newidiadau hyn yn darparu gwelliannau i'n gwasanaeth rheilffyrdd fel rheoli'r Metro yn weithredol a chynnwys dydd Sul yn yr wythnos waith.

Er bod codiadau cyflog yng Ngrŵp TrC yn adlewyrchu perfformiad unigolion, ychydig iawn o daliadau perfformiad penodol a bonysau uwchlaw cyflogau sylfaenol sy'n cael eu talu ar draws Grŵp TrC i rai grwpiau o weithwyr (er enghraifft, comisiwn ar gyfer staff rheng flaen). Cyfanswm y cyflog cysylltiedig â pherfformiad a dalwyd ar draws y grŵp yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2024/25 oedd £1,037,921, sydd, o'i ddefnyddio fel cyfartaledd ar draws yr holl weithwyr yn unol â gofynion cyfrifo FReM, wedi cynyddu 60% o'i gymharu â 2023/24 (£616,120). Mae'r cynnydd yn bennaf o ganlyniad i fwy o deithio gan deithwyr a mwy o ffocws ar sganio goruchwylwyr sy'n cyd-fynd â'r strategaeth diogelu refeniw a chyflwyno PAYG.

Nid oes cynlluniau bonws uwch reolwyr.



Pecynnau Ymadael

Nid oedd unrhyw gynlluniau ymddeoliad cynnar na thaliad diswyddo yn 2024-25 na 2023-24 a dim ond cynlluniau ymadael unigol oedd ar waith. Ymddeoliadau oherwydd iechyd gwael oedd y rhan fwyaf o'r ymadawiadau. Mae hyn yn adlewyrchu proffil oedran ein gweithlu ac mae'n cyd-fynd â thaliadau contract ar gyfer iechyd gwael.

Mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm cost y pecynnau ymadael y cytunwyd arnynt ac y rhoddwyd cyfrif amdanynt yn ystod y flwyddyn (gyda'r llynedd fel cymhariaeth). Mae'r costau sydd wedi'u cynnwys yn y tabl yn cynrychioli cost unrhyw un sy'n gadael i TrC, gan gynnwys cyfraniadau Yswiriant Gwladol a phensiynau, ac eithrio elfennau tâl cytundebol safonol fel taliad yn lle rhybudd a balans gwyliau blynyddol sydd wedi cronni.

	Nifer y diswyddiadau gorfodol	Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt	Cyfanswm nifer 2024/25	Cyfanswm nifer 2023/24
<£10,000	-	16	16	16
£10,000 – £25,000	-	2	2	2
£25,000 – £50,000	-	5	5	1
£50,000 – £100,000	-	-	-	3
£100,000 – £150,000	-	-	-	-
£150,000 – £200,000	-	-	-	-
£200,000 +	-	-	-	-
Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael	-	23	23	22
Cyfanswm y gost £			261,344	352,999



ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR

Mae ein Cyfarwyddwyr yn cyflwyno’u hadroddiad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025.

Cyfarwyddwyr

Dyma’r Cyfarwyddwyr a oedd dal mewn swydd yn ystod y flwyddyn hyd at ddyddiad yr adroddiad hwn:

Enw	Rôl
J S Waddington	Cadeirydd / Cyfarwyddwr Anweithredol
D A Bowen	Cyfarwyddwr Anweithredol
V J Everitt	Cyfarwyddwr Anweithredol
VKD Parmar	Cyfarwyddwr Anweithredol (Penodwyd ar 16 Medi 2024)
R L Langham	Cyfarwyddwr Anweithredol (Penodwyd ar 16 Medi 2024)
L M Cheeseman	Cyfarwyddwr Anweithredol (Penodwyd ar 15 Tachwedd 2024)
N J Kemmery	Cyfarwyddwr Anweithredol (Penodwyd ar 7 Gorffennaf 2024)
S Howells	Cyfarwyddwr Anweithredol (Penodwyd ar 17 Hydref 2024)
A J Noon-Jones	Cyfarwyddwr Anweithredol (Penodwyd ar 17 Hydref 2024)
J R Price	Cyfarwyddwr Gweithredol
H J Clash	Cyfarwyddwr Gweithredol

Offerynnau Ariannol

Hylifedd a risg llif arian

Rydym yn monitro ein cyfalaf gweithio’n rheolaidd i wneud yn siŵr bod digon o arian wedi cael ei dynnu i lawr o Lywodraeth Cymru ar gyfer ein rhwymedigaethau pan fyddan nhw’n ddyledus.

Mae gan y Grŵp gynllun ymddiogelu prisiau tanwydd i liniaru effaith amrywiadau ym mhris tanwydd a fyddai’n peri ansicrwydd arall o ran mewnfurion i berfformiad ariannol y busnes. Mae trefniant ymddiogelu presennol y Grŵp yn para rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2026.

Risg credyd

Nid ydym yn wynebu risg sylweddol o ran credyd gan fod y rhan fwyaf o weithgarwch y Grŵp naill ai’n cael ei ariannu drwy grantiau Llywodraeth Cymru a dderbynnir ymlaen llaw, drwy fasnachu â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus neu drwy werthu arian parod i’r cyhoedd. Caiff ein risg credyd ei fonitro’n rheolaidd.



Difidend arfaethedig

Nid yw'r cyfarwyddwyr yn argymhell talu difidend. Bydd ein gwarged wrth gefn yn cael ei ddefnyddio i ariannu ein gweithgareddau yn y dyfodol.

Gweithwyr

Ceir gwybodaeth am amrywiaeth a chynhwysiant ar [dudalen 32](#). Mae rhagor o wybodaeth am ymgysylltu â gweithwyr ar gael yn y datganiad Adran 172 ar [dudalen 42](#).

Ymgysylltu â chyflenwyr, cwsmeriaid ac eraill mewn perthynas fusnes â'r Cwmni

Mae gwybodaeth am sut rydym yn ymgysylltu â'n cyflenwyr, ein cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill wedi'i chynnwys yn ein datganiad Adran 172 ar [dudalen 42](#). Ein nod yw talu ein holl gyflenwyr cyn gynted ag y caiff y gwariant ei gymeradwyo gan gydymffurfio â Chod Talu'n Brydlon y Llywodraeth.

Adroddiadau ynni a charbon

Mae gwybodaeth am ein defnydd o ynni a'n camau gweithredu wedi'u cynnwys yn yr adroddiad datgarboneiddio ar [dudalen 45](#).

Cyfraniadau gwleidyddol

Fel is-gwmni dan berchnogaeth lwy'r Llywodraeth Cymru, nid oes gan TrC yr hawl i gymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau gwleidyddol, ac oherwydd hynny nid ydym wedi rhoi unrhyw roddion gwleidyddol na derbyn unrhyw wariant gwleidyddol yn ystod y flwyddyn.

Y drefn ar gyfer chwythu'r chwiban

Rydym wedi ymrwymo i wneud yn siŵr ei fod yn cyrraedd safonau uchel, ac yn cadw'r safonau hynny, o ran ymddygiad yn y gwaith, gwasanaeth i'r cyhoedd, a'i holl arferion gwaith. Disgwylir i'n gweithwyr ymddwyn yn gywir, yn ddiduedd ac yn onest ac rydym yn ceisio datblygu diwylliant lle rydym yn herio ymddygiad annerbyniol ar bob lefel. Er mwyn sicrhau hyn, rydym yn annog pawb i roi gwybod am bryderon gwirioneddol am gamymarfer, gweithredoedd anghyfreithlon, neu achosion o fethu cydymffurfio â safonau gwaith cydnabyddedig, heb ofni y bydd neb yn gwneud cam â hwy nac yn eu cosbi am wneud hynny.

Darparu gwybodaeth i'r archwilydd

Mae'r Cyfarwyddwyr a oedd yn y swydd ar ddyddiad cymeradwyo adroddiad y cyfarwyddwyr yn cadarnhau, hyd y gŵyr pob un ohonynt, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilydd TrC gwybod amdani; ac mae pob cyfarwyddwr wedi cymryd pob cam y dylai fod wedi'i gymryd fel cyfarwyddwr i gael gwybod am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod ein harchwilydd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Archwilydd

Yn unol ag Adran 487 o Ddeddf Cwmnïau 2006, ystyrir y bydd yr archwilydd yn cael ei ail-benodi, ac felly bydd KPMG LLP yn parhau yn y swydd.

J R Price | Cyfarwyddwr
25 Mehefin 2025
Rhif cofrestru'r cwmni: 9476013



Datganiad o gyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr mewn perthynas â'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a datganiadau ariannol y grŵp a'r rhiant-gwmni yn unol â'r gyfraith a rheoliadau perthnasol.

Yn ôl y gyfraith cwmnïau, mae'n rhaid i'n Cyfarwyddwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer y Grŵp a'r rhiant-gwmni am bob blwyddyn ariannol. O dan y gyfraith honno maent wedi dewis paratoi datganiadau ariannol y grŵp yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU a'r gyfraith berthnasol, ac wedi dewis paratoi datganiadau ariannol y rhiant-gwmni yn unol â safonau cyfrifyddu'r DU a'r gyfraith berthnasol (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU), gan gynnwys Fframwaith Datgelu Gostyngol FRS 101.

O dan y gyfraith cwmnïau, ni chaiff ein Cyfarwyddwyr gymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai eu bod yn fodlon bod y datganiadau'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Grŵp a'r rhiant-gwmni yn ogystal â sefyllfa elw a cholled y cwmni ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi pob un o ddatganiadau ariannol y Grŵp a'r rhiant-gwmni, mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwyr:

- dewis polisiau cyfrifyddu addas, a'u rhoi ar waith mewn ffordd gyson;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol, yn berthnasol, yn ddibynadwy ac yn graff;
- ar gyfer datganiadau ariannol y grŵp, nodi a ydynt wedi cael eu paratoi yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU;
- ar gyfer datganiadau ariannol y rhiant-gwmni, datgan a yw'r safonau cyfrifyddu perthnasol yn y Deyrnas Unedig wedi cael eu dilyn, yn amodol ar ddatgelu ac esbonio unrhyw wyriadau o bwys yn y datganiadau ariannol;
- asesu gallu'r Grŵp a'r rhiant-gwmni i barhau fel busnes gweithredol a datgelu, fel y bo'n berthnasol, unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â bod yn fusnes gweithredol; a
- defnyddio sail busnes gweithredol ar gyfer cyfrifyddu, oni bai eu bod naill ai'n bwriadu diddymu'r grŵp neu'r rhiant-gwmni neu roi'r gorau i weithredu, neu os nad oes ganddyn nhw unrhyw ddewis realistig arall heblaw am hynny.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n ddigon i ddangos ac egluro trafodiadau'r rhiant-gwmni a datgelu sefyllfa ariannol y rhiant-gwmni yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg, ac i'w galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maent yn gyfrifol am y rheolaeth fewnol sy'n angenrheidiol yn eu barn nhw er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sydd ddim yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau o bwys, boed y rheini wedi'u gwneud drwy dwyll neu gamgymeriad. Mae ganddynt gyfrifoldeb cyffredinol hefyd i gymryd camau o'r fath sydd, o fewn rheswm, ar gael iddynt er mwyn diogelu asedau'r grŵp a rhwystro ac adnabod twyll ac achosion eraill o afreoleidd-dra.

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gynnal a chadw a chywirdeb yr wybodaeth gorfforaethol ac ariannol sydd ar [wefan](#) y cwmni. Gall deddfwriaeth yn y DU sy'n gysylltiedig â pharatoi a dosbarthu'r datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.



DATGANIADAU ARIANNOL



Adroddiad yr archwilydd annibynnol i aelodau Trafnidiaeth Cymru

Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Trafnidiaeth Cymru ("y Cwmni") ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 sy'n cynnwys y Datganiad Incwm Cyfunol, y Datganiad Cyfunol o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Cyfunol o Newidiadau mewn Ecwiti, y Datganiad Cyfunol o Lif Arian, Datganiad Sefyllfa Ariannol y Cwmni, Datganiad Newidiadau mewn Ecwiti a nodiadau cysylltiedig y Cwmni, gan gynnwys y polisiau cyfrifyddu yn nodyn 1.

Yn ein barn ni:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Grŵp a'r Rhiant-gwmni ar 31 Mawrth 2025 ac o ddiffyg y Grŵp am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- mae datganiadau ariannol y Grŵp wedi'u paratoi'n briodol, yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol mabwysiedig y DU;
- mae datganiadau ariannol y Rhiant-gwmni wedi cael eu paratoi'n gywir yn unol â safonau cyfrifyddu'r DU, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 101 - Fframwaith Datgelu Llai ; a
- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

Sail ein barn

Rydym wedi cynnal ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y Deyrnas Unedig) ("ISAs (UK)") a'r gyfraith berthnasol. Mae ein cyfrifoldebau yn cael eu disgrifio isod. Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol o dan ofynion moesegol y DU – gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol – ac rydym yn annibynnol ar y Grŵp yn unol â hynny fel y'i gweithredir i endidau eraill o ddiddordeb y cyhoedd.. Rydym o'r farn bod y dystiolaeth archwilio rydym ni wedi ei chael yn ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail i'n barn.

Busnes gweithredol

Mae'r cyfarwyddwyr wedi paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol gan nad ydynt yn bwriadu diddymu'r Grŵp na'r Cwmni na dirwyn eu gweithrediadau i ben, a gan eu bod wedi dod i'r casgliad bod hyn yn realistig wrth ystyried sefyllfa ariannol y Grŵp a'r Cwmni. Maent hefyd wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw ansicrwydd o bwys a allai fwrw amheuaeth sylweddol dros eu gallu i barhau fel busnes gweithredol am flwyddyn o leiaf, o'r dyddiad y cafodd y datganiadau ariannol eu cymeradwyo ("cyfnod busnes gweithredol").

Rydym wedi defnyddio ein gwybodaeth am y Grŵp, ei ddiwydiant, a'r amgylchedd economaidd cyffredinol i ganfod risgiau i'w fodel busnes ac wedi dadansoddi sut gallai'r risgiau hynny effeithio ar adnoddau ariannol y grŵp a'r cwmni neu ar eu gallu i barhau i weithredu yn ystod y cyfnod busnes gweithredol. Roeddem o'r farn mai'r risgiau a fyddai'n fwyaf tebygol o gael effaith niweidiol ar yr adnoddau ariannol oedd ar gael i'r Grŵp a'r Cwmni dros y cyfnod hwn oedd y cyllid parhaus a oedd ar gael gan Lywodraeth Cymru.

Gan fod y Grŵp a'r Cwmni yn dibynnu ar gyllid parhaus gan Lywodraeth Cymru, fe wnaethom asesu'r risg na fyddai'r cymorth hwn ar gael. Roeddem wedi archwilio llythyrau a dderbyniwyd gan y cyfarwyddwyr yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i ddarparu'r cymorth hwn, wedi archwilio datganiadau ariannol i asesu ei allu i ddarparu'r cymorth hwn dros gyfnod asesiad busnes gweithredol yr endid a archwiliwyd, ac wedi asesu'r rhesymau busnes pam y gallai neu pam na allai'r grŵp ddewis darparu'r cymorth hwn.

Roeddem wedi ystyried a yw'r datgeliad busnes byw yn nodyn 1 i'r datganiadau ariannol yn rhoi disgrifiad llawn a chywir o asesiad y cyfarwyddwyr o'r busnes gweithredol, gan gynnwys y risgiau a'r dibyniaethau a nodwyd.



Mae ein casgliadau yn seiliedig ar y gwaith hwn:

- rydym yn credu bod defnydd y cyfarwyddwyr o'r dull cyfrifyddu ar sail busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol;
- nid ydym wedi canfod, ac rydym yn cytuno ag asesiad y cyfarwyddwyr nad oes, ansicrwydd o bwys sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Grŵp neu'r Cwmni i barhau fel busnes gweithredol yn ystod y cyfnod busnes gweithredol.

Fodd bynnag, gan na allwn ni ragweld yr holl ddigwyddiadau neu amodau yn y dyfodol, a gan y gallai digwyddiadau yn y dyfodol arwain at ganlyniadau sy'n anghyson â barn a oedd yn rhesymol ar y pryd y rhoddwyd hi, nid yw'r canlyniadau uchod yn gwarantu y bydd y Grŵp neu'r Cwmni yn parhau i weithredu.

Twyll a thorri cyfreithiau a rheoliadau – y gallu i ganfod

Canfod ac ymateb i risgiau o gamddatganiadau o bwys o ganlyniad i dwyll

Er mwyn canfod risgiau o gamddatganiad o bwys o ganlyniad i dwyll ("risgiau twyll") rydym wedi asesu digwyddiadau neu amodau a allai awgrymu cymhelliant neu bwysau i gyflawni twyll neu roi cyfle i gyflawni twyll. Roedd ein gweithdrefnau asesu risg yn cynnwys:

- Holi'r cyfarwyddwyr, y Pwyllgor Archwilio a Risg, ac archwilio dogfennau polisi ynghylch polisiau a gweithdrefnau lefel uchel y Grŵp i atal a chanfod twyll, gan gynnwys swyddogaeth archwilio mewnol, a sanel y Grŵp ar gyfer "chwythu'r chwiban", yn ogystal ag a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, twyll a amheuir neu dwyll honedig.
- Darllen cofnodion y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio.
- Defnyddio gweithdrefnau dadansoddol i ganfod unrhyw gysylltiadau anarferol neu annisgwyl.

Rydym wedi rhoi gwybod i'r tîm archwilio am y risgiau o dwyll a ganfuwyd, ac rydym wedi parhau'n effro i unrhyw arwyddion o dwyll yn ystod yr archwiliad.

Fel sy'n ofynnol dan y safonau archwilio, rydym yn cynnal gweithdrefnau i fynd i'r afael â'r risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau, yn enwedig y risg y gallai tîm rheoli'r Grŵp fod mewn sefyllfa i wneud cofnodion cyfrifyddu amhriodol a'r risg fod rhagfarn mewn amcangyfrifon cyfrifyddu a dyfarniadau fel ailbrisiad o asedau. Yn yr archwiliad hwn, nid ydym o'r farn bod risg o dwyll sy'n gysylltiedig â chydabod referniw oherwydd y meini prawf cydnabod referniw nad ydynt yn gymhleth, sy'n cyfyngu ar y cyfle i gam-drafod referniw yn dwyllodrus.

Ni ddaethom o hyd i unrhyw risgiau ychwanegol o ran twyll.

Wrth benderfynu ar y gweithdrefnau archwilio, rydym wedi ystyried canlyniadau ein gwerthusiad a'n profion o effeithiolrwydd gweithredu rheolaethau rheoli risg twyll y Grŵp cyfan

Rydym wedi cynnal gweithdrefnau gan gynnwys:

- Canfod cofnodion dyddlyfrau ac addasiadau eraill i'w profi ar sail meini prawf risg a chymharu'r cofnodion a ganfuwyd â dogfennau ategol. Roedd y rhain yn cynnwys y postiadau anarferol hynny i gyfrifon arian parod a phostio anarferol i gyfrifon asedau a oedd yn cael eu hadeiladu.
- Asesu a yw'r penderfyniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl.



Canfod ac ymateb i risgiau o gamddatganiadau o bwys mewn perthynas â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau

Roeddem wedi nodi meysydd o gyfreithiau a rheoliadau y gallai fod yn rhesymol disgwyl iddynt gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol o'n profiad masnachol cyffredinol a'n profiad o'r sector, a thrwy drafod â'r cyfarwyddwyr ac eraill, rheoli (fel sy'n ofynnol dan y safonau archwilio), ac o arolygu gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol y Grŵp a thrafod gyda'r cyfarwyddwyr a rheolwyr eraill y polisiau a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.

Rydym wedi rhoi gwybod i'n tîm am y cyfreithiau a'r rheoliadau a ganfuwyd, ac rydym wedi parhau'n effro i unrhyw arwyddion o ddiffyg cydymffurfiaid yn ystod yr archwiliad.

Mae effaith bosibl y cyfreithiau a'r rheoliadau hyn ar y datganiadau ariannol yn amrywio'n sylweddol.

Yn gyntaf, mae'r Grŵp yn ddarostyngedig i ddeddfau a rheoliadau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y datganiadau ariannol gan gynnwys deddfwriaeth adrodd ariannol (gan gynnwys deddfwriaeth cwmnïau cysylltiedig), deddfwriaeth elw dosbarthadwy, a deddfwriaeth trethiant, a deddfwriaeth pensiynau, ac fe wnaethom asesu i ba raddau y cydymffurfiwyd â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn fel rhan o'n gweithdrefnau ar eitemau cysylltiedig yn y datganiad ariannol.

Yn ail, mae'r Grŵp yn ddarostyngedig i lawer o ddeddfau a rheoliadau eraill lle gallai canlyniadau peidio â chydymffurfio gael effaith sylweddol ar symiau neu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol, er enghraifft drwy roi dirwyon neu ymgyfreitha. Fe wnaethom nodi'r meysydd canlynol fel y rhai sydd fwyaf tebygol o gael effaith o'r fath: iechyd a diogelwch, deddfau diogelu data, gwrth-lwgrwobrwy, cyfraith cyflogaeth, rheoliadau sy'n berthnasol i gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru, deddfwriaeth sy'n ymwneud â thrafnidiaeth, a rhai agweddau ar ddeddfwriaeth cwmnïau. Mae safonau archwilio yn cyfyngu'r gweithdrefnau archwilio gofynnol i ganfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn i holi'r cyfarwyddwyr a rheolwyr eraill ac arolygu gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol, os oes rhai. Felly, os na fydd torri rheoliadau gweithredol yn cael ei ddatgelu i ni neu'n amlwg o'r ohebiaeth berthnasol, ni fydd archwiliad yn canfod y tor-amod hwnnw.

Cyd-destun gallu'r archwiliad i ganfod twyll neu dorri cyfraith neu reoliad

Oherwydd cyfyngiadau sy'n gynhenid i archwiliadau, mae risg anochel nad ydym efallai wedi canfod rhywfaint o gamddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol, er ein bod wedi cynllunio a chynnal ein harchwiliad yn briodol yn unol â'r safonau archwilio. Er enghraifft, po bellaf yw achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau o'r digwyddiadau a'r trafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol, y lleiaf tebygol yw y byddai'r gweithdrefnau'r safonau archwilio sydd, yn eu hanfod yn gyfyngedig, yn eu canfod.

Yn ogystal, fel gydag unrhyw archwiliad, roedd risg uwch o beidio â dod o hyd i dwyll, gan y gallai'r rhain gynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgor bwriadol, anwiredd neu ddiystyru rheolaethau mewnol. Mae ein gweithdrefnau archwilio wedi eu cynllunio i ddod o hyd i gamddatganiadau perthnasol. Nid ydym yn gyfrifol am atal diffyg cydymffurfio na thwyll ac ni ellir disgwyl i ni ddod o hyd i achosion o beidio â chydymffurfio â phob cyfraith a rheoliad.

Gwybodaeth Arall

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am yr wybodaeth arall, sy'n cynnwys yr adroddiad Strategol, adroddiad y Cyfarwyddwr a Adroddiadau llywodraethu. Nid yw ein barn ni am y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall a, gan hynny, nid ydym yn mynegi barn archwilio amdanynt.

Ein cyfrifoldeb ni yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried – ar sail ein gwaith archwilio ar y datganiadau ariannol – a yw'r wybodaeth ynddynt yn cael ei cham-ddatgan yn sylweddol, neu a yw'n anghyson â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth archwilio ni.

Ar sail y gwaith hwnnw'n unig:

- nid ydym wedi dod o hyd i gamddatganiadau o bwys yn y wybodaeth arall;
- yn ein barn ni, mae'r wybodaeth yn yr adroddiad Strategol ac adroddiad y Cyfarwyddwr ar gyfer y flwyddyn ariannol yn cyd-fynd â'r datganiadau ariannol; ac
- mae'r adroddiadau hynny wedi cael eu paratoi yn unol â Deddf Cwmnïau 2006 yn ein barn ni.



Materion y mae'n rhaid i ni adrodd arnynt drwy eithriad

O dan Ddeddf Cwmnïau 2006, mae'n rhaid i ni roi gwybod i chi os ydym yn credu bod y canlynol yn wir:

- nid oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw gan y Rhiant-gwmni, neu nid oes ffurflenni perthnasol i'n harchwiliad wedi cael eu cyflwyno gan ganghennau nad ydym wedi ymweld â nhw; neu
- nad yw datganiadau ariannol y Rhiant-gwmni yn cyd-fynd â'r ffurflenni a'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nid yw rhai o daliadau'r cyfarwyddwyr, a nodir yn y gyfraith, wedi cael eu datgelu; neu
- nid ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

Cyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr

Fel yr esboniwyd yn fanylach yn eu datganiad ar dudalen 63, mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am y canlynol: paratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg; y fath reolaeth fewnol y maent yn penderfynu sy'n angenrheidiol yn eu barn nhw er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sydd ddim yn cynnwys camddatganiadau o bwys, boed y rheini wedi'u gwneud drwy dwyll neu gamgymeriad; asesu gallu'r Grŵp neu'r Rhiant-gwmni i barhau fel busnes gweithredol gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â bod yn fusnes gweithredol; a defnyddio sail busnes gweithredol ar gyfer cyfrifyddu, oni bai eu bod naill ai'n bwriadu diddymu'r Grŵp neu'r Cwmni neu roi'r gorau i weithredu, neu os nad oes ganddynt unrhyw opsiwn realistig arall heblaw am hynny.

Cyfrifoldebau'r archwilydd

Ein hamcanion ni yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau o bwys, boed nhw wedi eu gwneud drwy dwyll neu gamgymeriad, a rhoi ein barn ni ar ffurf adroddiad yr archwilydd. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y Deyrnas Unedig) bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad o bwys pan fydd yn bodoli. Mae camddatganiadau'n gallu codi yn sgil twyll neu gamgymeriad, ac maent yn cael eu hystyried yn rhai o bwys os byddai'n rhesymol disgwyl iddynt – yn unigol neu gyda'i gilydd – ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol.

Mae disgrifiad mwy cyflawn o'n cyfrifoldebau ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn

www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities.

Pwrpas ein gwaith archwilio, ac i bwy mae gennym gyfrifoldebau

Caiff yr adroddiad hwn ei wneud ar gyfer aelodau'r Cwmni yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3, Rhan 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Cyflawnwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu datgan wrth aelodau'r Cwmni y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan wrthynt mewn adroddiad archwilydd, ac i ddim pwrpas arall. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ysgwyddo cyfrifoldeb i neb, ac eithrio i'r Cwmni ac aelodau'r Cwmni fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

Rees Batley (Uwch-archwilydd Statudol)

ar ran ac yn enw KPMG LLP, Cyfrifwyr Siartredig

Archwilydd Statudol

66 Sgwâr y Frenhines

Bryste

BS1 4BE

27 Mehefin 2025



Datganiad Incwm Cyfunol

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025

	Nodyn	2025 £000	2024 £000
Refeniw	2	807,557	717,879
Treuliau gweinyddol		(827,456)	(741,687)
Gwarged gweithredol/(diffyg) cyn treth		(19,899)	(23,808)
Incwm cyllid	6	13	-
Traul incwm	6	(13,947)	(6,886)
Incwm ariannu net/ (traul)		(13,934)	(6,886)
Gwarged/(diffyg) cyn treth		(33,833)	(30,694)
Credyd treth/(tâl)	7	1,571	(2,604)
Gwarged/(diffyg) am y flwyddyn		(32,262)	(33,298)
Datganiad o Incwm Cynhwysfawr Arall			
<i>Eitemau na fyddant yn cael eu hailddosbarthu i elw neu golled:</i>			
Ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar	8	(42,621)	(108,502)
Ailfesur rhwymedigaeth/ased buddion diffiniedig	18	245	432
Treth gysylltiedig	7	-	(78)
Cyfanswm eitemau na fyddant yn cael eu hailddosbarthu i elw neu golled		(42,376)	(108,148)
<i>Eitemau y gellid eu hailgategoreiddio wedyn i elw neu golled:</i>			
Cyfran effeithiol o newidiadau i werth teg cronfeydd ymddiogelu llif arian	19	(3,813)	238
Treth gysylltiedig	7	68	(68)
Cyfanswm eitemau a allai gael eu hailddosbarthu i elw neu golled		(3,745)	170
Incwm cynhwysfawr arall am y flwyddyn, net treth		(46,121)	(107,978)
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn		(78,383)	(141,276)

Priodolir yr holl incwm cynhwysfawr i ddeiliad ecwiti Trafnidiaeth Cymru.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 75 i 107 yn rhan annatod o'r datganiadau ariannol hyn




Datganiad sefyllfa ariannol cyfunol

3 Mawrth 2025

		Nodyn	2025 £000	2024 £000
Asedau anghyfredol				
Eiddo, offer a chyfarpar	8		4,088,180	3,851,840
Asedau anniriaethol	9		3,768	7,047
Ewyllys da	9		3,546	3,546
Buddion gweithwyr	18		202	-
			4,095,696	3,862,433
Asedau cyfredol				
Rhestrau	11		12,409	14,032
Symiau derbyniadwy masnach ac eraill	12		138,154	180,085
Arian ac eitemau sy'n cyfateb i arian	13		39,634	42,117
Cyfanswm asedau cyfredol			190,197	236,234
			4,285,893	4,098,667
Cyfanswm yr asedau				
Rhwymedigaethau cyfredol	14		178,133	224,118
Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill	20		61,178	44,895
Rhwymedigaethau lesoedd	15		341	240
Darpariaethau			239,652	269,253
Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol				
Rhwymedigaethau anghyfredol	14		7,700	-
Masnach a symiau taladwy eraill	20		459,419	391,714
Rhwymedigaethau lesoedd	17		2,176,769	1,957,602
Grantiau cyfalaf gohiriedig	18		-	113
Buddion gweithwyr	15		2,850	2,099
Darpariaethau			2,646,738	2,351,528
Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol			2,886,390	2,620,781
Cyfanswm y rhwymedigaethau			1,399,503	1,477,886
Ecwiti				
Gwarged wrth gefn			4,383	9,872
Cronfa wrth gefn cyfraniad cyfalaf			11,097	11,097
Cronfa ailbrisio			1,387,598	1,456,747
Cronfa wrth gefn ar gyfer ymddiogelu			(3,575)	170
Cyfanswm ecwiti			1,399,503	1,477,886

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar 25 Mehefin 202 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:



J R Price | Cyfarwyddwr
Rhif cofrestru'r cwmni: 9476013



Datganiad Cyfunol am Newidiadau mewn Ecwiti

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 March 2025

	Gwarged wrth gefn £000	Cyfraniad cyfalaf wrth gefn £000	Ailbrisio - wrth gefn £000	Cronfa wrth gefn ar gyfer ymddiogelu £000	Cyfanswm ecwiti £000
Balans ar 1 Ebrill 2023	8,393	11,097	1,599,672	-	1,619,162
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod					
Diffyg	(33,298)	-	-	-	(33,298)
Incwm cynhwysfawr arall					
Ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar	-	-	(108,502)	-	(108,502)
Ailfesur rhwymedigaeth/ ased buddion diffiniedig	432	-	-	-	432
Cyfran effeithiol o newidiadau i werth teg cronfeydd ymddiogelu llif arian	-	-	-	238	238
Treth ar incwm cynhwysfawr arall	(78)	-	-	(68)	(146)
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod	(32,944)	-	(108,502)	170	(141,276)
Trosglwyddo o'r gronfa ailbrisio wrth gefn i warged a gadwyd	34,423	-	(34,423)	-	-
Balans ar 31 Mawrth 2024	9,872	11,097	1,456,747	170	1,477,886
Balans ar 1 Ebrill 2024	9,872	11,097	1,456,747	170	1,477,886
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod					
Diffyg	(32,262)	-	-	-	(32,262)
Incwm Cynhwysfawr Arall					
Ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar	-	-	(42,621)	-	(42,621)
Ailfesur rhwymedigaeth/ ased buddion diffiniedig	245	-	-	-	245
